

Dogfen Ymgynghori

# Cyfrifiad 2021 – Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr

Cyfnod yr ymgynghoriad rhwng: 4 Mehefin 2015 a 27  
Awst 2015

## Dogfen ymgynghori

# Cyfrifiad 2021: Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr

Cyfnod yr ymgynghoriad: 4 Mehefin 2015 - 27 Awst 2015

## Cynnwys

Dogfen ymgynghori.....	1
Cyfrifiad 2021: Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr .....	1
1. Cyflwyniad .....	4
1.1 Ymateb i'r ymgynghoriad.....	5
2. Cyd-destun cynllun Cyfrifiad 2021 .....	6
2.1 Cynllun Cyfrifiad 2021 .....	6
2.2 Defnyddio ffynonellau eraill .....	7
2.3 Lledaenu a rheoli datgelu.....	7
2.4 Daearyddiaeth.....	7
3. Pynciau yr ystyrir casglu data arnynt yng Nghyfrifiad 2021 .....	7
3.1 Seiliau allbwn a chyfrifo.....	9
3.2 Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref.....	10
3.3 Tai.....	12
3.4 Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol .....	14
3.5 Iaith.....	15
3.6 Crefydd .....	16
3.7 Mudo a dinasyddiaeth .....	17
3.8 Addysg.....	19
3.9 Iechyd .....	20
3.10 Gofalwyr.....	21
3.11 Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol .....	22
3.12 Teithio.....	24
3.13 Incwm .....	25
3.14 Hunaniaeth rywiol .....	26
3.15 Gwybodaeth a gesglir at ddibenion gweithredol .....	27
4 Meini prawf gwerthuso .....	29
4.1 Gofynion defnyddwyr .....	30
4.2 Gofynion gweithredol .....	32
4.3 Ystyriaethau.....	33
5 Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	34
5.1 Amdanoch chi .....	34
5.2 Caniatâd .....	35
5.3 Seiliau allbwn a chyfrifo.....	36

5.4	Cwestiynau ar gyfer pynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011 ...	37
5.5	Cwestiynau ar gyfer pynciau na chawsant eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011 45	
5.6	Sylwadau .....	52
Atodiad A	Cyfraddau ymateb a chytuno â chwestiynau .....	53
Atodiad B	Ffynonellau gwybodaeth amgen .....	57
B1	Cynlluniau ar gyfer data gweinyddol a data arolwg .....	57
B2	Cynlluniau ar gyfer Data Mawr .....	60
Atodiad C	Geirfa .....	61
Atodiad D	Cyfeiriadau.....	72
Atodiad E	Holiaduron Cyfrifiad 2011.....	74

## 1. Cyflwyniad

SYG sy'n gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Ar gyfer Cyfrifiad 2021, rydym am adeiladu ar lwyddiant Cyfrifiad 2011. Ein nod yw cynnal neu wella ansawdd y data ar gyfer y pynciau hynny a gesglir, sicrhau y gellir cymharu data pan fo cwsmeriaid yn dweud wrthym fod hynny'n bwysig a darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i anghenion defnyddwyr yn 2021. Rydym am i chi ddefnyddio data'r cyfrifiad gan ein bod o'r farn bod data gwell yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Mae'r cyfrifiad yn rhan o system ystadegol lawer ehangach. Mae casglu gwybodaeth drwy gyfrifiad yn fuddsoddiad sylweddol sy'n gosod baich ar bob teulu yng Nghymru a Lloegr. Dim ond os mai'r cyfrifiad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gasglu gwybodaeth er mwyn bodloni gofyniad defnyddwyr cryf, a bod y budd sy'n gysylltiedig ag ef yn gwrthbwysu'r costau casglu, y bydd yn briodol.

Yr ymgynghoriad hwn yw ein cam cyntaf tuag at ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch o'r cyfrifiad a bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn bwysig. Mewn rhai achosion, bydd ffyrdd mwy priodol o gasglu gwybodaeth a bydd eich ymatebion yn ein helpu i asesu'r ffordd orau o ddiwallu eich anghenion o ran gwybodaeth.

Mae'r papur hwn yn rhoi barn gychwynnol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gynnwys holiadur Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr. Hwn fydd man cychwyn yr ymgynghori ar y pynciau a'r is-bynciau a gaiff eu cynnwys. Caiff ein barn gychwynnol ei llywio gan werthusiad o lwyddiant pynciau a chwestiynau 2011, yn ogystal â thystiolaeth o ofynion defnyddwyr o ymgynghoriadau diweddar ar gyfer Y Tu Hwnt i 2011. Caiff ei llywio hefyd gan ein dealltwriaeth gychwynnol o fforddiadwyedd a'n dyheadau o ran defnyddio data gweinyddol.

Barn gychwynnol a fynegir yn y papur hwn. Y nod yw hyrwyddo trafodaeth ac annog y broses o ddatblygu achosion cryf dros gynnwys pynciau yng Nghyfrifiad 2021. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y wybodaeth sydd ei hangen o Gyfrifiad 2021, nid y cwestiynau manwl y dylid eu cynnwys yn yr holiadur. Dim ond ar ôl gwaith ymchwil, profion ac ymgynghoriadau pellach y caiff union gynnwys yr holiaduron ar gyfer Cyfrifiad 2021 ei gymeradwyo.

Gweithiodd y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2011 yn llwyddiannus ac rydym yn disgwyl sefydlogrwydd yn gyffredinol o ran y cwestiynau ar gyfer 2021. I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd Cyfrifiad 2011, gweler Atodiad A Cyfraddau ymateb a chytuno â chwestiynau.

O ystyried y newidiadau pellgyrhaeddol a gyflwynwyd yng Nghyfrifiad 2011 - 8 cwestiwn newydd ar gyfer yr unigolyn ac un cwestiwn newydd ar gyfer y cartref - credwn fod yr hyd cyffredinol o tua 43 o gwestiynau fesul unigolyn yn agos at y terfyn o ran bod yn faich derbyniol i'r cyhoedd. Felly, nid ydym yn disgwyl ehangu'r baich hwnnw ar yr ymatebydd. Efallai y bydd y broses o gyflwyno unrhyw bynciau newydd yn golygu y bydd angen dileu pynciau sy'n bodoli eisoes. Caiff newidiadau eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Lle na wnaeth cwestiynau weithio'n dda yn 2011, yn enwedig lle nad oeddent yn bodloni gofynion defnyddwyr o ran allbynnau.
- Gofynion polisi newydd neu ofynion polisi sy'n dod i'r amlwg na ellir mynd i'r afael â hwy drwy ddefnyddio arolygon neu ddata gweinyddol.

- Cydymffurfio â newidiadau mewn canllawiau rhyngwladol (e.e. newidiadau sy'n ymwneud â phwnc y farchnad lafur) ac mewn deddfwriaeth.

Arweiniodd ymgynghoriad ar gynnwys cyfrifiadau blaenorol at alw am fwy o bynciau nac yr oedd modd eu cynnwys yn y cyfrifiad. At ddiben tryloywder, mae'r meini prawf y caiff yr achos dros bynciau ei asesu yn eu herbyn eu rhestru yn adran 4 Meini prawf gwerthuso. Bydd hyn yn rhoi syniad clir i ymatebwyr o'r rhwystrau a'r cyfnewidiadau o ddechrau'r broses ymgynghori.

Fel gyda chyfrifiadau blaenorol, caiff cyfrifiadau ar wahân eu cynnal yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd y tair swyddfa cyfrifiad yn cydweithio er mwyn datblygu set o gwestiynau a fydd, lle y bo'n bosibl, yn darparu allbynnau wedi'u cysoni ledled y DU.

### 1.1 Ymateb i'r ymgynghoriad

Y ffordd orau o ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw ar-lein. Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu ar bapur, cwblhewch dempled yr holiadur. Mae rhai cwestiynau gorfodol y mae angen i chi eu cwblhau er mwyn i ni gynnwys eich ymateb yn ein dadansoddiad.

Gallwch ymateb i bob pwnc, neu ddim ond y pwnc/pynciau unigol sy'n berthnasol i chi. Dylech gynnwys templed pwnc wedi'i gwblhau ar gyfer pob pwnc y mae gennych ofyniad ar ei gyfer, gan gynnwys unrhyw bynciau newydd yr hoffech ddweud wrthym amdanynt. Os ydych yn gofyn am newid y cynnwys arfaethedig, mae angen i chi wneud y canlynol:

- darparu tystiolaeth i gefnogi'ch angen
- rhoi ystyriaeth i'r ystyriaethau sy'n rhan o'r broses werthuso (gweler adran 4)

Gwahoddir ymatebion i'r papur ymgynghori hwn tan ganol nos 27 Awst 2015.

Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gennym yn dryloyw, caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymateb, ond gofynnir i chi gadarnhau a ydych yn hapus i'ch enw gael ei gyhoeddi. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod ar gael i'r cyhoedd os bydd ei angen yn unol â chais Rhyddid Gwybodaeth.

## 2. **Cyd-destun cynllun Cyfrifiad 2021**

Ym mis Mawrth 2014, gwnaeth yr Ystadegydd Cenedlaethol a Phrif Weithredwr Awdurdod Ystadegau'r DU argymhelliad ar y cyd ar y cyfrifiad a'r gwaith o ddarparu ystadegau ar y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Argymhellwyd y canlynol:

- cyfrifiad ar-lein o'r holl gartrefi a sefydliadau cymunedol yng Nghymru a Lloegr yn 2021 fel olynnydd modern i'r cyfrifiad papur traddodiadol a gynhelir bob deng mlynedd, ond gan gydnabod y byddai angen cymryd gofal arbennig i gefnogi'r rhai na allant gwblhau'r cyfrifiad ar-lein
- mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau o Gyfrifiad 2021 a gwella ystadegau blynyddol rhwng cyfrifiadau.

Ymatebodd y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2014, gan groesawu'r argymhelliad i gynnal cyfrifiad ar-lein yn bennaf yn 2021 wedi'i ategu gan ddefnydd pellach o ddata gweinyddol ac arolygon:

- “Government recognises the value of the census and its history as a bedrock of statistical infrastructure. The census provides information on the population that is of fundamental importance to society ...
- Modernising the approach could significantly improve the speed of analysis and outputs. In addition, we are not making the best use of the considerable data that government already collects.
- ... our support for the dual running of an online (decennial) census with increased use of administrative data is only relevant to 2021 and not for future censuses...
- Our ambition is that censuses after 2021 will be conducted using other sources of data and providing more timely statistical information.”

### 2.1 **Cynllun Cyfrifiad 2021**

Bydd cynllun lefel uchel Cyfrifiad 2021 yn adeiladu ar gynllun hynod lwyddiannus Cyfrifiad 2011, gan ddefnyddio llawer o agweddau'r cynllun a ddefnyddiwyd yn 2011. Fodd bynnag, y newid mwyaf sylweddol fydd yr angen i fwyafri'r ymatebwyr gwblhau holiadur y cyfrifiad ar-lein. Caiff goblygiadau cynllun cyfrifiad ar-lein eu harchwilio ymhellach yn y trosolwg o gynllun Cyfrifiad 2021.

Caiff y cynllun hefyd ei ddylanwadu gan argaeledd a chwmpas data gweinyddol a data mawr. Ceir rhagor o wybodaeth am gynlluniau i ddefnyddio data gweinyddol a data mawr yn adran 2.2 ac Atodiad B Ffynonellau gwybodaeth amgen. Efallai y bydd y newid i gynnal cyfrifiad ar-lein am y tro cyntaf yn cynnig cyfle i ailgynllunio cwestiynau (er enghraifft, hunangwblhau cwestiynau ynghylch cyfeiriad). Bydd penderfyniadau ar gynnwys manwl cwestiynau yn seiliedig ar ganlyniad gwaith ymchwil a'r asesiad o anghenion defnyddwyr.

## 2.2 Defnyddio ffynonellau eraill

Mae SYG yn archwilio dulliau o ddefnyddio data gweinyddol i nodi a gwerthuso allbynnau arbrofol sy'n cwmpasu amcangyfrifon o'r boblogaeth a nodweddion economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys priodweddau'r cartref. Bydd y set gyntaf o allbynnau arbrofol ar gael yn ystod hydref 2015.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth o'r fath yn helpu i gynnal y cyfrifiad, er enghraifft, wrth ddatblygu'r gofrestr cyfeiriadau a llywio gwaith maes. Ceir rhagor o wybodaeth am y meysydd gwaith hyn yn Atodiad B Ffynonellau gwybodaeth amgen.

## 2.3 Lledaenu a rheoli datgelu

Darparodd Cyfrifiad 2011 fwy o ddata nag erioed o'r blaen, gan gynnwys data ar gyfer ardaloedd daearyddol newydd a phoblogaethau eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y gofynion o ran gwybodaeth o Gyfrifiad 2021, ac nid yw'n ymgynghori'n benodol ar y fformatau y bydd y data ar gael ynddynt, na'r ffyrdd o gael gafael ar y data. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Cyffredinol ar Gyfrifiad 2011, ar gyfer Cyfrifiad 2021 byddwn yn ystyried symud o'r dull traddodiadol o gynhyrchu nifer fawr o setiau data bach, i gynhyrchu nifer lai o setiau data mwy o faint sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd. Pe bai'r opsiwn hwnnw'n cael ei fabwysiadu, gallai alluogi defnyddwyr i gael gafael ar y cyfuniadau o newidynnau a lefel y manylion sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu hardaloedd daearyddol dewisol, yn amodol ar gyfyngiadau rheoli datgelu.

## 2.4 Daearyddiaeth

Un elfen allweddol o'r gofyniad o ran gwybodaeth yw'r lefel ddaearyddol sydd ei hangen ar gyfer y pynciau. Ein barn gychwynnol ni yw mai ardaloedd cynnyrch ac ardaloedd cynnyrch ehangach fydd yr ardaloedd daearyddol safonol, yn yr un modd ag a welwyd yn 2011 a 2001. Disgwylwn y bydd angen i ganran fach ohonynt (llai na 5 y cant) gael eu rhannu neu eu huno oherwydd newidiadau ar lawr gwlad. Caiff Parthau'r Gweithle a ddefnyddiwyd yn 2011 eu cynnal yn 2021 ar sail debyg i'r modd y'u crëwyd o ddata Cyfrifiad 2011, fel rhaniadau neu uniadau o'r set o ardaloedd cynnyrch yn 2021. Caiff y farn gychwynnol hon ei hadolygu dros y blynyddoedd i ddod.

## 3. Pynciau yr ystyrir casglu data arnynt yng Nghyfrifiad 2021

Mae'r adran hon yn nodi barn gychwynnol SYG ar bob un o'r pynciau yr ystyrir casglu data arnynt yng Nghyfrifiad 2021. Mae pob pwnc wedi'i drefnu'n set o is-bynciau a chaiff y farn gychwynnol ar gyfer yr is-bwnc hwnnw ei chyflwyno gan ddefnyddio'r system ddosbarthu a nodir yn y tablau isod.



<b>Barn gychwynnol</b>	<b>Diffiniad</b>
Casglu	Cynigir ei gynnwys yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfredol o anghenion defnyddwyr ac ystyriaethau o ran ansawdd
Peidio â chasglu	Cynigir peidio â'i gynnwys gan fod gennym bryderon ynghylch y broses gasglu, derbynioldeb neu ddiffyg angen ymhlith defnyddwyr
Peidio â chasglu. Dylid archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol	Lle gallwn weld potensial i ddefnyddio data gweinyddol i ddiwallu'r angen
Mae angen rhagor o wybodaeth	Lle mae angen rhagor o wybodaeth am anghenion defnyddwyr er mwyn gwneud asesiad. Mewn rhai achosion, efallai y gellid defnyddio data gweinyddol i ddiwallu'r angen

<b>Barn gychwynnol</b>	<b>Pynciau</b>
Casglu	Oedran, rhyw, statws priodasol, cyberthnasau rhwng aelodau'r cartref a chydberthnasau teuluol, math o lety a llety hunangynhwysol, deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu), nifer yr ystafelloedd gwely, grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, y Gymraeg, prif ieithoedd a ddefnyddir, medrusrwydd iaith Saesneg, crefydd, mudo rhyngwladol hirdymor, mudo rhyngwladol byrdymor, mudo mewnol, cymwysterau a ddelir, iechyd cyffredinol, y gofal di-dâl a ddarperir, gweithgarwch economaidd, galwedigaeth, dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC), dull o deithio i'r gweithle, cyfeiriad y gweithle
Peidio â chasglu	Statws goruchwylio, blwyddyn olaf a weithiwyd, cyfeiriad y man astudio
Peidio â chasglu. Dylid archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol	Incwm
Mae angen rhagor o wybodaeth	Nifer yr ystafelloedd, math o wres canolog, ceir neu faniau, problem iechyd neu anabledd hirdymor, diwydiant, gwirfoddoli a gwaith di-dâl, hunaniaeth rywiol

Mae holiadur Cyfrifiad 2011 wedi'i gynnwys yn Atodiad E 2011 er mwyn cyfeirio ato.

### 3.1 Seiliau allbwn a chyfrifo

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Sylw
Diffiniad o breswylfa arferol	Ni ddylid ei newid	Ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu ond mae'n diffinio pwy sy'n cwblhau'r holiadur
Diffiniad o gartref	Ni ddylid ei newid	
Diffiniad o ymwelydd	Ni ddylid ei newid	
Preswlydd byrdymor	Ni ddylid ei newid	

Bydd i'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r boblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 oblygiadau ar gyfer sawl agwedd ar y gwaith o gynllunio'r cyfrifiad. Mae'r sail gyfrifo yn disgrifio'r ffordd y caiff y boblogaeth ei chyfrif. Caiff y penderfyniad ynghylch pa sail i'w defnyddio ei lywio gan yr angen i gasglu gwybodaeth am bethau fel: teuluoedd, tai, grwpiau penodol o'r boblogaeth fel myfyrwyr a phersonél y lluoedd arfog.

Cynhaliodd SYG adolygiad trylwyr o seiliau cyfrifo eraill cyn iddi gymeradwyo'r cynllun yn 2011. Daeth i'r casgliad bod angen defnyddio sail gyfrifo 'gyfansawdd' ar gyfer Cyfrifiad 2011 a fyddai'n casglu gwybodaeth am yr holl breswylwyr arferol a'r holl bobl a oedd yn bresennol mewn cyfeiriad ar noson y cyfrifiad. Byddai'r bobl a oedd yn bresennol yn cynnwys preswylwyr byrdymor ac ymwelwyr.

Mae SYG yn bwriadu mabwysiadu'r sail gyfrifo a ddefnyddiwyd yn 2011 fel y sail gyfrifo ar gyfer Cyfrifiad 2021. Un o fanteision y sail gyfrifo hon fyddai'r ffaith y byddai modd mesur y boblogaeth yn yr un ffordd â Chyfrifiad 2011. Mae hefyd yn gyson, fwy neu lai, â safonau rhyngwladol.

Byddai'r sail allbwn sylfaenol hefyd yr un fath ag yn 2011, sef pob preswlydd arferol. Fodd bynnag, caiff nifer gyfyngedig o allbynnau eu cynhyrchu ar seiliau allbynnau eraill fel y gwelwyd yn 2011. Ymhlith y rhain roedd:

- Cartrefi
- Poblogaethau y tu allan i'r tymor
- Poblogaethau gweithleoedd
- Poblogaethau diwrnod gwaith
- Plant dibynnol sy'n byw yn eu prif breswylfa fel arfer ac mae gan eu rhieni ail gyfeiriad
- Preswylwyr byrdymor

Roedd holiadur Cyfrifiad 2011 yn diffinio cartref fel a ganlyn:

- un person yn byw ar ei ben/phen ei hun; neu
- grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu lolfa neu ardal fwyta

Mae SYG yn cynnig y dylid cadw'r diffiniad hwn o gartref at ddibenion casglu data yn 2021.

### 3.2 Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Oedran	Casglu	Do	Gwybodaeth ddemograffig hanfodol. Bydd oedran yn deillio o gasglu dyddiad geni.
Rhyw	Casglu	Do	Gwybodaeth ddemograffig hanfodol.
Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol	Casglu	Do	Gwybodaeth ddemograffig hanfodol. Categoriâu ymateb i'w hadolygu yn sgil Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013
Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasa u teuluol	Casglu	Do	Gwybodaeth ddemograffig hanfodol.

Mae gwybodaeth ddemograffig sylfaenol yn hanfodol ar gyfer y mwyafrif o allbynnau'r cyfrifiad a thybir ei bod yn un o ofynion allweddol defnyddwyr y cyfrifiad. Yn y cyd-destun hwn, ystyr gwybodaeth ddemograffig sylfaenol yw oedran, statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol a chydberthnasau rhwng aelodau'r cartref a chydberthnasau teuluol.

Yn sgil yr ymgynghoriad yn 2011 ar raglen Y Tu Hwnt i 2011 SYG, cadarnhawyd bod angen i'r boblogaeth gael ei mesur yn ôl oedran a rhyw - yn enwedig ar lefelau daearyddol is. Cadarnhawyd hefyd fod angen dadansoddi amrywiaeth o oedrannau o ran allbynnau'r cyfrifiad, er enghraifft allbynnau'n cwmpasu blynyddoedd unigol hyd at 100 oed.

Roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys gwybodaeth am bartneriaethau sifil. Rydym yn disgwyl y bydd gofyniad ymhlith defnyddwyr i Gyfrifiad 2021 ystyried Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, a gyfreithlonodd priodas rhwng cyplau o'r un rhyw o fis Mawrth 2014. Mae SYG yn bwriadu adolygu'r categorïau ymateb sydd eu hangen er mwyn diwallu'r angen hwn yn y ffordd orau bosibl.

Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad cymdeithasol teuluoedd a chartrefi nad yw ar gael o unrhyw ffynhonnell arall. Mae'n bwysig bod y wybodaeth sydd ar gael am y cydberthnasau hyn yn dal i fod yn berthnasol i'r ffordd y caiff ei defnyddio. Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am gydberthnasau rhwng aelodau'r cartref a chydberthnasau teuluol.

Yn ogystal â gwybodaeth am aelodau cartrefi, mae'r cyfrifiad hefyd yn casglu gwybodaeth am y boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol. Fel o'r blaen, nid yw SYG yn bwriadu casglu gwybodaeth am y cydberthnasau rhwng pobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol.

## 3.3 Tai

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Math o lety a llety hunangynhwy sol	Casglu	Do	I ddarparu gwybodaeth am y stoc dai; yn cynnwys nifer y lleoedd byw mewn anheddau.
Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu)	Casglu	Do	I ddarparu gwybodaeth am y stoc dai a manylion llawn am ddeiliadaeth.
Nifer yr ystafelloedd	Mae angen rhagor o wybodaeth	Do	Mae cyfrif nifer yr ystafelloedd yn darparu gwybodaeth am orlenwi a than-ddeiliadaeth drwy'r gyfradd ddeiliadaeth. Mae'n bosibl y gall mynediad diweddar i ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) ddarparu ffynhonnell arall o wybodaeth am nifer yr ystafelloedd.
Nifer yr ystafelloedd gwely	Casglu	Do	Mae cyfrif nifer yr ystafelloedd gwely yn darparu gwybodaeth am orlenwi a than-ddeiliadaeth drwy'r gyfradd ddeiliadaeth. Defnyddir y mesur ystafelloedd gwely yn eang, gan gynnwys ar gyfer polisi.
Math o wres canolog	Mae angen rhagor o wybodaeth	Do	Mae canran fach y cartrefi heb wres canolog (2.7%) a'r ganran fawr ag un math penodol (gwres canolog nwy 78.7%) yn awgrymu nad yw'r cwestiwn am wres canolog, o bosibl, yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, gall y polisiâu sydd ar waith i hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau gwres adnewyddadwy olygu y byddai gwybodaeth y cyfrifiad yn fuddiol er mwyn deall effaith y rhain ar y cymysgedd o fathau o wres canolog yn y dyfodol.
Ceir neu faniau	Mae angen rhagor o wybodaeth	Do	Caiff ei ddefnyddio i gynllunio traffig. Fodd bynnag, mae data llif y Cyfrifiad o ran teithio i'r gwaith yn fwy defnyddiol. Efallai bod ffynonellau eraill o ddata ar gael.

Mae'r data a gesglir o gwestiynau am **fath o lety, llety hunangynhwysol a deiliadaeth** yn cael eu bwydo i'r amcangyfrifon o stoc dai a ddefnyddir at ddibenion cynllunio cenedlaethol a chynllunio llywodraeth leol. Mae allbynnau allweddol y cyfrifiad ar gartrefi yn seiliedig ar ymatebion i'r cwestiynau hyn. Mae gwybodaeth o'r cwestiwn a ofynnir i'r rhai sy'n rhentu ynghylch y math o landlord sydd ganddynt yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael am ddeiliadaeth. Fodd bynnag, awgrymodd yr Arolwg o Ansawdd Cyfrifiad 2011 fod rhai pryderon ynghylch cywirdeb y wybodaeth am fathau o landlordiaid cymdeithasol, felly byddwn yn ystyried sut y gallwn wella hyn.

Mae cwestiwn am **nifer yr ystafelloedd gwely** yn darparu gwybodaeth am orlenwi a than-ddeiliadaeth mewn cartrefi y canfyddir ei fod yn fwy defnyddiol na'r cwestiwn cyfatebol ynghylch **nifer yr ystafelloedd**. Cafodd y cwestiwn am nifer yr ystafelloedd gwely ei ateb yn dda yn 2011. Roedd y cwestiwn am nifer yr ystafelloedd yn gymhleth ac yn gofyn am ganllawiau manwl a dangosodd yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad (gweler Atodiad A) na chafodd ei ateb yn dda o gymharu â'r cwestiwn am nifer yr ystafelloedd gwely. Defnyddir gwybodaeth am orlenwi a than-ddeiliadaeth at ddibenion polisi, er enghraifft gan awdurdodau lleol i ddyrannu tai fforddiadwy.

Yn ddiweddar, mae'r Senedd wedi rhoi cymeradwyaeth i SYG gael gafael ar ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisió sy'n rhoi cyfle iddi archwilio potensial data gweinyddol o ran diwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd.

Mae canran fach y cartrefi heb wres canolog (2.7%) a'r ganran fawr ag un math penodol (gwres canolog nwy 78.7%) yn awgrymu nad yw'r cwestiwn am wres canolog, o bosibl, yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, gall y polisiâu sydd ar waith i hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau gwres adnewyddadwy olygu y byddai gwybodaeth y cyfrifiad yn fuddiol er mwyn deall effaith y rhain ar y cymysgedd o fathau o wres canolog yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth am **nifer y ceir neu faniau** mewn cartrefi yn helpu llywodraeth ganolog a llywodraeth leol gyda materion trafnidiaeth a chynllunio tai newydd, ond mae data'r cyfrifiad am y dulliau o deithio i'r gwaith a llifau preswylfa i weithle yn debygol o fod yn fwy defnyddiol at y dibenion hyn.

### 3.4 Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Grŵp ethnig	Casglu	Do	Mae grŵp ethnig yn un o newidynnau allweddol y cyfrifiad a ddefnyddir yn eang gan y llywodraeth, y byd academiaidd a'r gymuned ehangach o ddefnyddwyr. Mae hefyd yn faes cydraddoldeb allweddol.
Hunaniaeth genedlaethol	Casglu	Do	Mae'r wybodaeth a gesglir am hunaniaeth genedlaethol yn ategu'r wybodaeth am Grŵp ethnig, gan olygu bod modd cynnal amrywiaeth ehangach o ddadansoddiadau. Mae hefyd yn golygu y gall ymatebwyr gofnodi'r agweddau gwahanol hyn ar eu hunaniaeth mewn ffordd fwy cynhwysfawr.

Mae'r cyfrifiad wedi bod yn casglu gwybodaeth am **grŵp ethnig** ers 1991, a dyma un o'r newidynnau a ddefnyddir fwyaf. Defnyddir y data hyn gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i ddyrannu adnoddau, i lywio'r gwaith o lunio polisiâu ac i helpu sefydliadau i gyflawni a monitro eu rhwymedigaethau statudol sy'n deillio o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mewn ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn Cyfrifiad 2011, roedd yn bwnc y gofynnwyd amdano'n aml, a chafodd y data a gasglwyd eu dadansoddi a'u hadrodd yn eang. Mae SYG yn hyderus y bydd hi'n parhau felly ar gyfer Cyfrifiad 2021, a barn gychwynnol SYG yw y bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys y pwnc hwn.

Daeth ymchwil a gynhaliwyd cyn Cyfrifiad 2011, a ymchwiliodd i ba mor dderbyniol oedd y defnydd o liw yn y cwestiwn hwn ymhlith ymatebwyr, i'r casgliad nad oedd unrhyw gonsensws. Er enghraifft, tra bod rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r defnydd o'r term 'Du', roedd eraill yn nodi'n gadarnhaol eu bod yn 'Ddu Prydeinig'. Arweiniodd y gwaith ymchwil hwn, pan y'i hystyriwyd gyda'r dyhead clir ymhlith defnyddwyr i sicrhau cysondeb â chyfrifiadau blaenorol, a ffynonellau gwybodaeth eraill ar grwpiau ethnig, at ddefnydd parhaus o'r termau hyn ac ni chafodd strwythur eang y cwestiwn ei newid o'r un a ddefnyddiwyd yn 2001. Mae SYG yn cynnig na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r cwestiwn ar ethnigrwydd.

Gweithiodd y cwestiwn hwn yn dda yn 2011 ac roedd fwy neu lai'n gyson â'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2001, gyda dau flwch ticio newydd yn cael eu cynnwys ar gyfer 'Sipsi/Teithiwr Gwyddelig' ac 'Arabeg'.

Casglwyd data ar **hunaniaeth genedlaethol** am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011, er mwyn ategu'r data ar grwpiau ethnig.

Datblygwyd y cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol gan SYG, i'w gynnwys gyda'r cwestiwn am grŵp ethnig, er mwyn caniatáu i ymatebwyr nodi eu bod yn Brydeinig waeth beth fo'u grŵp ethnig. Yn ogystal, roedd yn caniatáu i ymatebwyr nodi eu bod yn Gymreig neu'n Seisnig (er enghraifft) yn hytrach na'n Brydeinig.

Gweithiodd y cwestiwn hwn yn dda yn 2011, a chafodd y data a gasglwyd eu dadansoddi'n eang ar y cyd â'r data ar gyfer grŵp ethnig, ac yn annibynnol arno.

Barn gychwynnol SYG yw y caiff y pwnc hwn ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 ac na chaiff y cwestiwn ei newid.

### 3.5 Iaith

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Y Gymraeg	Casglu yng Nghymru	Do	Mae angen cryf ymhlith defnyddwyr am y data hyn yng Nghymru at ddibenion llunio polisiau, cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau.
Prif ieithoedd a ddefnyddir	Casglu	Do	Mae angen cryf ymhlith defnyddwyr am y data hyn at ddibenion cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau yn ogystal â hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal ynysu cymdeithasol.
Medruswydd iaith Saesneg	Casglu lle nad Saesneg (neu Gymraeg yng Nghymru) yw'r brif iaith	Do	Mae angen cryf ymhlith defnyddwyr am y data hyn at ddibenion cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau yn ogystal â hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal ynysu cymdeithasol.

Gwyddys fod angen ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'r defnydd o ieithoedd eraill yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys ieithoedd arwyddion). Mae dealltwriaeth o'r modd y caiff iaith ei ddefnyddio yn cwmpasu dau beth: sgiliau a medruswydd. Sgiliau iaith yw'r gallu i ddeall iaith lafar, a'r gallu i'w siarad, ei darllen a'i hysgrifennu. Mae medruswydd yn cyfeirio at lefel y sgiliau hyn.

Mae ffynonellau eraill o wybodaeth ar gael ar y pwnc iaith, fel yr Arolwg o'r Llafurlu, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg o'r Defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni all yr arolygon sampl hyn ddarparu data cynhwysfawr ar ardaloedd bach ac felly ni chânt eu hystyried yn ddewisiadau amgen addas i'r cyfrifiad.

Gofynnodd Cyfrifiad 2011 am sgiliau **iaith Gymraeg**. Caiff data'r cyfrifiad ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu defnyddio'n eang ledled Cymru i fonitro cyflwr yr iaith ac i ategu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd dyletswyddau statudol newydd arfaethedig ar gyrrff



cyhoeddus (Safonau'r Gymraeg) yn cynyddu'r gofyniad sydd arnynt i ystyried y Gymraeg wrth lunio polisiau a datblygu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod modd cymharu'r data a gesglir â data o gyfrifiadau blaenorol.

Dangosodd yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad fod ymatebwyr wedi cael peth anhawster gyda'r cwestiwn hwn. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn oedd eu bod wedi gorfod gwneud asesiad goddrychol o'u sgiliau iaith Gymraeg. Barn gychwynnol SYG yw Cyfrifiad 2021 yn casglu data ar yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac y bydd y cwestiwn yn aros yn ddigyfnewid.

Fel gyda chyfrifiadau blaenorol, nid yw SYG yn bwriadu casglu data ar yr iaith Gymraeg yn Lloegr oherwydd ystyrir nad yw'r angen am y data hwn ymhlith defnyddwyr yn ddigon cryf. Mae'r dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â hyrwyddo a monitro'r iaith yn cyfeirio at Gymru yn unig.

Cyfrifiad 2011 oedd y cyntaf i gasglu gwybodaeth am **brif iaith a medruswydd iaith Saesneg**; defnyddir y wybodaeth i ddyrannu adnoddau a darparu gwasanaethau, er enghraifft, er mwyn penderfynu ble i ddarparu cyrsiau Saesneg fel ail iaith, a gwasanaethau cyfieithu. Nodwyd angen ymhlith defnyddwyr am ddata ar sgiliau Saesneg hefyd ond nid oedd yn ddigonol i gyfiawnhau ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2011.

Barn gychwynnol SYG yw y bydd Cyfrifiad 2021 yn casglu data ar brif iaith a medruswydd iaith Saesneg ac, er cysondeb, bydd y cwestiwn yn aros yn ddigyfnewid.

### 3.6 Crefydd

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Crefydd	Casglu	Do	Mae'r broses o fesur crefydd yn arbennig o sensitif i union eiriad a fformat y cwestiwn; mae SYG yn bwriadu mesur ymlyniad crefyddol er mwyn darparu data y gellir eu cymharu â Chyfrifiadau 2001 a 2011.

Cafodd crefydd ei gynnwys fel pwnc am y tro cyntaf yng nghyfrifiad 2001. Cafodd ei gynnwys ar yr amod bod y cwestiwn yn un gwirfoddol ac, yn 2011, y cwestiwn hwnnw oedd yr unig gwestiwn gwirfoddol o hyd.

Dangosodd ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn Cyfrifiad 2011 fod llawer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio data ar grefydd ochr yn ochr â data ar ethnigrwydd i'w helpu i fonitro achosion o wahaniaethu. Ymhlith y mathau eraill o ddefnydd cyffredin a wnaed o'r data roedd nodi gwahaniaethau yn nifer y rhai sy'n manteisio ar wasanaethau a monitro allgáu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith grwpiau lleiafrifol. Amlygodd Ymgynghoriad Cyhoeddus Y Tu Hwnt i 2011 bwysigrwydd cynyddol y pwnc hwn i ddefnyddwyr.

Mae'n arfer cyffredin wrth fesur crefydd poblogaeth i wahaniaethu rhwng y cysyniadau o ymlyniad crefyddol, cred grefyddol ac arfer crefyddol. Nododd yr adroddiad 'Cwestiynau Terfynol a Argymhellir 2011 - Crefydd' fod mwyafrif y rhanddeiliaid a fynegodd eu barn cyn Cyfrifiad 2011 yn cefnogi penderfyniad SYG i gasglu gwybodaeth am ymlyniad. Fodd bynnag, nododd ymgynghoriad ar Grŵp Ethnig, Hunaniaeth Genedlaethol, Crefydd ac Iaith fod galw hefyd am nifer o gysyniadau amgen.

Dangosodd profion gwybyddol a phrofion ar yr Arolwg Barn fod cwestiynau amgen am grefydd wedi methu â mesur ymlyniad crefyddol yn unig. Yn hytrach, roeddent yn mynd i'r afael ag arfer, cred neu ymdeimlad o berthyn hefyd. Mae SYG yn deall bod y gallu i gymharu'r data hyn â Chyfrifiadau 2011 a 2001, pan ofynwyd yr un cwestiwn, yn bwysig iawn i ddefnyddwyr. Byddai angen i unrhyw newid i'r cwestiwn a fyddai'n effeithio ar y gallu i gymharu data ar y pwnc hwn ddiwallu angen cryf a nodwyd yn amlwg ymhlith defnyddwyr.

Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu data ar grefydd ar sail wirfoddol yng Nghyfrifiad 2021.

### 3.7 Mudo a dinasyddiaeth

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Mudo rhyngwladol hirdymor	Casglu	Do	Mae hwn yn ffactor allweddol o ran newid yn y boblogaeth. Gellir defnyddio gwybodaeth am basbortau a ddelir, gwlad enedigol a chyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl i ddadansoddi cefndir mudwyr. Defnyddiwyd cwestiynau am y flwyddyn a'r mis y gwnaeth unigolion gyrraedd a'u bwriad i aros i wahaniaethu rhwng mudwyr rhyngwladol hirdymor a byrdymor.
Mudo rhyngwladol byrdymor	Casglu	Do	Fe'i defnyddir gan awdurdodau lleol i gynllunio a monitro'r gwasanaethau a ddarperir ac i ddyrannu adnoddau.
Mudo mewnol	Casglu	Do	Mae hwn yn ffactor allweddol o ran newid yn y boblogaeth leol ac mae'n deillio o gyfeiriad unigolyn flwyddyn yn ôl.

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio mudwr hirdymor fel rhywun sy'n newid ei wlad preswyllo arferol am gyfnod o flwyddyn o leiaf, fel bod y wlad sy'n gyrchfan, i bob pwrpas, yn dod yn wlad preswyllo arferol. Mae mudo rhyngwladol hirdymor yn ffactor pwysig ond cymhleth o ran newid yn y boblogaeth.

Mudwr byrdymor yw rhywun sy'n ymweld â gwlad ar wahân i'w wlad breswyllo arferol ei hun am gyfnod o lai na blwyddyn. Ymhlith y rhai sy'n defnyddio ystadegau mudo byrdymor fwyaf

mae awdurdodau lleol. Maent yn defnyddio amcangyfrifon i gynllunio a monitro'r gwasanaethau a ddarperir, dyrannu adnoddau a rheoli cyllidebau.

Daeth yr ymgynghoriad ar bynciau Cyfrifiad 2011 i'r casgliad bod angen gwybodaeth ychwanegol am fudo, a datblygwyd cyfres briodol o gwestiynau i ddiwallu amrywiol anghenion defnyddwyr.

Am y tro cyntaf, roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys cwestiynau am basbortau a ddelir (fel cwestiwn amgen o ran dinasyddiaeth y gallai ymatebwyr ei ddeall) a'r flwyddyn ddiweddaraf iddynt gyrraedd y DU (ar gyfer y rhai a aned y tu allan i'r DU) er mwyn deall patrymau mudo rhyngwladol a nodweddion grwpiau gwahanol o fudwyr rhyngwladol yn well. Drwy nodi hanes mudo unigolion, ochr yn ochr â chwestiynau cymdeithasol a chwestiynau am ieched a'r farchnad lafur, roedd modd cael syniad cliriach o wahanol fathau o fudwyr a'u canlyniadau economaidd-gymdeithasol, i lawr i lefelau daearyddol isel. Gwnaeth hyn, yn ei dro, hwyluso'r broses o asesu canlyniadau cymdeithasol ac economaidd gwahanol garfanau o fudwyr dros amser.

Caniataodd Cyfrifiad 2011 i fudwyr rhyngwladol hirdymor gael eu nodi mewn tair ffordd wahanol, sef gwlad enedigol, pasbort a ddelir a chyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl. Defnyddiwyd yr achos diweddaraf o fudo i'r DU, a'r bwriad i aros, hefyd i wahaniaethu rhwng mudwyr hirdymor a byrdymor a nodi hyd y cyfnod preswyllo. Defnyddiwyd cyfeiriad unigolion flwyddyn yn ôl i nodi patrymau mudo yn y DU. Defnyddiwyd data sy'n deillio o'r cwestiynau hyn ar fudo yn helaeth mewn dadansoddiadau a gyhoeddwyd gan SYG ar fudo rhyngwladol a mudo mewnol; yn ogystal, defnyddiwyd data ar fudo i lywio amcangyfrifon canol blwyddyn, rhagamcanion o'r boblogaeth ac amcangyfrifon o ran mudo.

Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am fudo rhyngwladol hirdymor a byrdymor, yn ogystal â chyfeiriad unigolion flwyddyn yn ôl, yng Nghyfrifiad 2021 er mwyn cynhyrchu gwybodaeth am fudo mewnol. Gweithiodd y cwestiynau a ofynnwyd yn 2011 yn dda ac, ar hyn o bryd, ni fwriedir eu newid.

### 3.8 Addysg

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Cymwysterau a ddeir	Casglu	Do	Mae angen cryf ymhlith defnyddwyr am y data hyn er mwyn nodi lefel uchaf o gymhwyster. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio polisiau, cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau.

Ar gyfer Cyfrifiad 2011, casglwyd data ar y cymwysterau academiaidd, galwedigaethol a phroffesiynol a ddaliwyd. Mae'r lefel uchaf o gymhwyster yn deillio o'r data hyn. Ymhlith y defnydd a wneir o ddata ar y lefel uchaf o gymhwyster mae'r canlynol:

- cânt eu defnyddio gan y llywodraeth i ddyrannu adnoddau a llunio polisiau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â grwpiau difreintiedig o'r boblogaeth
- helpu i dargedu cynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant
- nodi grwpiau nad oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymuno â'r gweithlu
- gwella ansawdd y broses o godio galwedigaeth

Oherwydd y gofyniad hysbys ymhlith defnyddwyr, barn gychwynnol SYG yw y byddwn yn parhau i gasglu data ar y cymwysterau academiaidd, galwedigaethol a phroffesiynol a ddelir.

Ni chafodd y cwestiwn am gymwysterau ei ateb yn dda yn 2001. Cynhaliwyd profion helaeth gogyfer â Chyfrifiad 2011 ond cafodd llawer o ymatebwyr anhawster i ateb o hyd. Dangosodd gwaith ymchwil i ansawdd yr ymatebion i'r cwestiynau am gymwysterau drwy'r profion ar gyfer Cyfrifiad 2011, yr Arolwg o Ansawdd Cyfrifiad 2011, ymchwiliad i gyfraddau ymateb, a chymhariaeth â'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod ymatebwyr wedi cael cryn drafferth gyda'r cwestiwn hwn.

Felly, dylid adolygu manylion y wybodaeth a gaiff ei chasglu ar gyfer y pwnc hwn yn 2021 er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr o ran allbynnau ac ansawdd.

Dangosodd profion a gynhaliwyd ar y cwestiynau fod llawer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch y ffordd yr oedd unrhyw gymwysterau nas restrwyd yn cyd-fynd â'r opsiynau a roddwyd, eu bod yn amharod i ddyfalu beth oedd y cymhwyster cyfatebol agosaf, a'u bod wedi anghofio pa gymwysterau a graddau yr oedd ganddynt. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ganran uchel o ddiffyg ymatebion i'r cyfrifiad (5.7%) a'r nifer uchel o achosion o anghytuno rhwng Cyfrifiad 2011 a'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad (32.4%) o ran y lefel uchaf o gymhwyster.

Felly, ymhlith yr agweddau ar y pwnc i'w hystyried mae'r canlynol:

- y graddau y mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn cyfateb i'r gofynion o ran data sy'n seiliedig ar lefelau'r Dosbarthiad Safonol Rhyngwladol ar gyfer Addysg

- pwysigrwydd cymharol casglu data cywir ar y rhai heb gymwysterau yn erbyn lefel uchaf o gymhwyster y rhai â chymwysterau tramor. Gall gwella ansawdd un agwedd gael effaith negyddol ar agwedd arall
- y graddau y mae angen ymhlith ddefnyddwyr am ddata ar gymwysterau penodol, er enghraifft prentisiaethau, a ddylai felly gael eu categorïau ymateb eu hunain
- y graddau y mae'r rhestr yn adlewyrchu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau rhwng y ddwy wlad
- Lefel y manylion sydd eu hangen o ran y dosbarthiad lefel uchaf o gymhwyster.

Mae SYG yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i greu ac asesu cwmpas Cronfa Ddata Addysg o ffynonellau gweinyddol y llywodraeth a fydd yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad a chymwysterau drwy addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer pob unigolyn a aned o 1985 ymlaen. Ein nod yw asesu addasrwydd y Gronfa Ddata Addysg at ddibenion cefnogi gofynion y cyfrifiad yn 2021.

### 3.9 Iechyd

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Iechyd cyffredinol	Casglu	Do	Mae angen y wybodaeth hon ar gyfer dyrannu adnoddau, nodi anghydraddoldebau iechyd a llunio ac asesu polisiau.
Problem iechyd neu anabledd hirdymor	Mae angen rhagor o wybodaeth	Do	Mae angen y wybodaeth hon ar gyfer dyrannu adnoddau, nodi anghydraddoldeb a llunio ac asesu polisiau.

Gofynnodd Cyfrifiad 2011 am wybodaeth am iechyd cyffredinol, a salwch neu anabledd hirdymor. Mae **iechyd cyffredinol** yn hunanasesiad o gyflwr iechyd cyffredinol unigolyn, y dangoswyd ei fod yn rhagfynegydd da o'r galw am wasanaethau iechyd yn y dyfodol. Gofynnwyd cwestiwn am iechyd cyffredinol am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2001 a chafodd y cwestiwn hwnnw ei ehangu i raddfa pum pwynt yng Nghyfrifiad 2011.

Mae cyfyngiadau ar gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, neu gyfyngiadau ar weithgareddau, yn arwydd o anabledd. Gofynnwyd cwestiwn am **broblem neu anabledd hirdymor** am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 1991, a chynyddwyd nifer y blychau ticio i dri yng Nghyfrifiad 2011 er mwyn nodi graddau'r cyfyngiadau.

Mae angen gwybodaeth am iechyd cyffredinol a phroblemau iechyd neu anableddau hirdymor a hunanasesir er mwyn

- nodi anghenion o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chynllunio gwasanaethau penodol

- dyrannu adnoddau iechyd ar lefel leol a chenedlaethol
- asesu dosbarthiad a graddau anghydraddoldebau iechyd
- llunio, monitro ac asesu polisiau sy'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth, anghydraddoldebau iechyd a helpu i wella cydraddoldeb i bobl anabl
- galluogi cyrff cyhoeddus i fodloni eu rhwymedigaethau statudol o ran iechyd y cyhoedd, er enghraifft, cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- darparu'r dystiolaeth ystadegol sydd ei hangen yn aml i gefnogi ceisiadau am gyllid

Roedd argaeledd data ar iechyd ar lefel ardal ddaearyddol fach hefyd yn bwysig i ddefnyddwyr i'w galluogi i dargedu gwasanaethau. Mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu ar ddata iechyd y cyfrifiad er bod ffynonellau data amgen ar gael. Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am iechyd cyffredinol.

Mae angen rhagor o wybodaeth am y data sydd eu hangen am y graddau y caiff gweithgareddau eu cyfyngu gan gyflyrau neu salwch hirdymor yng Nghyfrifiad 2021. Byddwn yn adolygu'r cwestiwn yn sgil y diffiniad o anabledd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### 3.10 Gofalwyr

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Y gofal di-dâl a ddarperir	Casglu	Do	Mae angen y wybodaeth er mwyn llunio polisiau, cynllunio ar gyfer anghenion gofal ffurfiol a dyrannu adnoddau.

Yng Nghyfrifiad 2011, nodwyd bod unigolyn yn darparu gofal di-dâl os yw'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n rhoi unrhyw help neu gefnogaeth iddynt, oherwydd salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.

Caiff gofalwyr eu hystyried yn grŵp sy'n agored i niwed sy'n tyfu'n gyflym, yn enwedig ymhlith y boblogaeth sy'n darparu'r nifer fwyaf o oriau o ofal (50 awr neu fwy yr wythnos yng Nghyfrifiad 2011). Mae dadansoddiad pellach o'r gofal a ddarperir wedi datgelu nifer gynyddol o ofalwyr rhwng 5 a 17 oed, gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig, a dynion a merched.

Nododd y sawl a ymatebodd i'r Ymgynghoriad ar Bynciau Cyfrifiad 2011 fod y data yn cael eu defnyddio mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys llunio polisiau, cynllunio ar gyfer anghenion gofal ffurfiol a dyrannu adnoddau. Roedd sawl defnyddiwr yn dadlau bod angen ffynhonnell ddata a all gael ei defnyddio ar lefel ardaloedd cynnyrch ehangach haen is. Dim ond y cyfrifiad all ddiwallu'r angen hwn, a gall nifer y gofalwyr amrywio'n fawr rhwng gwahanol ardaloedd.

Yn Lloegr, daeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Gofal 2014 i rym yn 2015, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion cymorth gofawyr os yw'r *unigolyn y maent yn gofalu amdano* yn byw yn yr awdurdod lleol hwnnw. Ni all y boblogaeth hon, sydd hefyd yn cynnwys pobl eraill na chânt eu cwmpasu gan y Ddeddf (fel y rhai sy'n darparu gofal drwy sefydliadau gwirfoddol), gael ei mesur yn gywir o'r cyfrifiad. Yng Nghymru, bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Bydd y ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ac asesu anghenion pobl sy'n 'ofalwyr'. Mae'r cyfrifiad yn darparu llinell sylfaen dda y gall awdurdodau lleol ei defnyddio fel canllaw ar gyfer nodi nifer y gofawyr yn eu hardal.

Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am y gofal di-dâl a ddarperir, gan gynnwys nifer yr oriau bob wythnos y caiff y gofal hwnnw ei ddarparu. Ni ragwelir unrhyw newidiadau i'r cwestiwn a ofynnwyd yn 2011.

### 3.11 Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol

Manylion y pwnc	Statws Arfaethedig	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Gweithgarwch economaidd	Casglu	Do	Mae angen ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am weithgarwch economaidd er mwyn i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ddyrannu adnoddau, llunio polisiau a'u rhoi ar waith, monitro perfformiad economaidd lleol, a dadansoddi'r cyflenwad llafur lleol.
Galwedigaeth	Casglu	Do	Mae angen ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am alwedigaethau er mwyn i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ddyrannu adnoddau, deall perfformiad economaidd lleol a dadansoddi marchnadoedd llafur lleol.
Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC)	Casglu	Do	Mae NS-SeC yn mesur mantais. Mae'n adnodd pwysig ar gyfer archwilio anghydraddoldebau. Caiff ei ddefnyddio hefyd i asesu marchnadoedd llafur lleol a'r cymysgedd o sgiliau.
Diwydiant	Mae angen rhagor o wybodaeth	Do	Mae angen ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am ddiwydiant er mwyn deall perfformiad economaidd lleol, marchnadoedd llafur lleol, defnydd tir ac anghenion cynllunio. Caiff ei defnyddio'n weithredol hefyd i wella'r broses o godio galwedigaeth.
Statws goruchwyllo	Peidio â chasglu	Do	Fe'i defnyddir yn weithredol i wella'r broses o godio NS-SeC
Blwyddyn olaf a weithiwyd	Peidio â chasglu	Do	Fe'i defnyddir yn weithredol i wella'r broses o godio NS-SeC

Gwirfoddoli a gwaith di-dâl	Mae angen rhagor o wybodaeth	Naddo	Mae newidiadau i ganllawiau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar gyfranogiad yn y llafurlu yn rhoi mwy o bwyslais ar wirfoddoli a gwaith di-dâl. Mae angen deall gofynion defnyddwyr.
-----------------------------	------------------------------	-------	--

Defnyddir gwybodaeth am y farchnad lafur mewn amrywiaeth o allbynnau'r cyfrifiad. Mae'n dangos cyfranogiad gwahanol rannau o'r boblogaeth mewn gwahanol fathau o waith. Casglodd Cyfrifiad 2011 wybodaeth am weithgarwch economaidd, galwedigaeth, diwydiant, blwyddyn olaf a weithiwyd a statws goruchwyllo. Mae dosbarthiad NS-SeC hefyd yn deillio o'r wybodaeth hon.

Defnyddir gwybodaeth am **weithgarwch economaidd a galwedigaeth** ar gyfer y canlynol:

- er mwyn i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ddyrannu adnoddau
- llunio polisiau a'u rhoi ar waith
- monitro perfformiad economaidd lleol
- dadansoddi marchnadoedd llafur lleol
- defnydd tir ac anghenion cynllunio

Mae SYG yn bwriadu casglu gwybodaeth am alwedigaeth a gweithgarwch economaidd yng Nghyfrifiad 2021.

Mae **Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC)** yn dynodi safle economaidd-gymdeithasol yn seiliedig ar alwedigaeth ac fe'i defnyddir i ddeall anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd. Defnyddiwyd **diwydiant, statws goruchwyllo a blwyddyn olaf a weithiwyd** yn bennaf i ddsbarthu a chodio galwedigaeth ac NS-SeC. Fodd bynnag, defnyddir diwydiant i ddeall perfformiad economaidd lleol, marchnadoedd llafur lleol a defnydd tir ac anghenion cynllunio.

Pe na bai diwydiant, statws goruchwyllo a blwyddyn olaf a weithiwyd yn cael eu hystyried, byddai gostyngiad yn ansawdd NS-SeC. Fodd bynnag, gallai'r broses o gasglu data ar-lein yn bennaf a'r defnydd cynyddol o ddata gweinyddol yn 2021 wella'r broses o godio data ar alwedigaeth, a allai, yn ei dro, wella ansawdd NS-SeC. O ganlyniad, nid yw SYG yn bwriadu casglu data ar statws goruchwyllo na'r flwyddyn olaf a weithiwyd gan fod y cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf i wella'r broses o godio galwedigaeth, sy'n cefnogi'r gwaith o ddynodi NS-SeC. Mae angen i SYG ddeall y gofyniad cyfredol ar gyfer NS-SeC a diwydiant.

Mae cwestiynau am alwedigaeth a diwydiant yn ddrud i'w codio felly dylid sicrhau bod angen cryf am y pynciau hyn er mwyn i'r budd a gynigir ganddynt gyfiawnhau eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

Ers 2011, mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol wedi cyflwyno cysyniadau newydd ynghylch gweithgarwch economaidd, fel cyfeirio at y cysyniad hwn fel 'llafurlu/y tu allan i'r llafurlu'. Mae'r newidiadau hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar b'un a gaiff pobl eu talu am y gwaith a wnant ai peidio, yn hytrach na'u gweithgarwch yn ystod y cyfnod dan sylw, a allai effeithio ar y modd y caiff gwaith di-dâl drwy gynlluniau hyfforddeion eu categorio. Mae SYG yn



bwriadu archwilio effaith y newidiadau hyn ar y wybodaeth a gesglir am weithgarwch economaidd a galwedigaeth. Yn ogystal, gall gwybodaeth am wirfoddoli a gwaith di-dâl a wneir gan hyfforddeion fod o ddiddordeb i ddefnyddwyr ynddi'i hun. Mae SYG yn ceisio eglurhad ar y wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr am **wirfoddoli a gwaith di-dâl**.

### 3.12 Teithio

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Dull o deithio i'r gweithle	Casglu	Do	Defnyddir y pwnc hwn yn eang gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i gynllunio a monitro polisïau trafndiaeth.
Cyfeiriad y gweithle	Casglu	Do	Defnyddir y pwnc hwn yn eang gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i gynllunio a monitro polisïau trafndiaeth.
Cyfeiriad y man astudio	Peidio â chasglu	Naddo	Cesglir data ar y pwnc hwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ond bu llai o alw yng Nghymru a Lloegr yn hanesyddol.

Bu'r cyfrifiad yn casglu data ar **deithio i'r gweithle** ers 1991, gan ddarparu cyfeiriadau gweithleoedd a'r dull o deithio (math o gerbyd). Defnyddir y data yn eang gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i lywio'r gwaith o lunio polisïau trafndiaeth a darparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Dadansoddir y data hyn yn fwyaf aml ar y cyd â'r data ar 'Gyfeiriad Cartref' er mwyn deall llifau cymudo ac mae'r cynhyrchion 'Tarddiad - Cyrchfan', a gynhyrchir i hwyluso hyn, ymhlith yr allbynnau y gofynnir amdanynt fwyaf ac a ddadansoddir fwyaf o ran y cyfrifiad.

Mae SYG yn cynnig y dylid cynnwys y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2021 ac y dylid defnyddio'r un cwestiwn a ofynnwyd yn 2011.

Mae SYG yn archwilio'r potensial i ddefnyddio data lleoliad o ffonau symudol er mwyn cynhyrchu ystadegau ar deithio i'r gwaith. Ni all SYG gael gafael ar ddata o'r fath ar hyn o bryd, a byddai angen datblygu dulliau amcangyfrif. Byddai SYG yn sicrhau bod cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data a mesurau diogelu cyfreithlon.

Yn ogystal â gwybodaeth am deithio i'r gweithle, nododd defnyddwyr fod angen gwybodaeth am **deithio i fan astudio**, fel y'i cesglir yn y cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ni chafodd y pwnc hwn ei gynnwys yng nghyfrifiad Cymru a Lloegr yn 2011 am dri phrif reswm:

- nid oedd anghenion defnyddwyr o ran y pwnc cyn gryfed â phynciau eraill
- mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith ar gywirdeb gwybodaeth am deithio i'r gweithle pe bai data ar y ddau bwnc yn cael eu casglu gan ddefnyddio'r un cwestiwn
- nodwyd y Cyfrifiad Ysgolion fel ffynhonnell ddata amgen addas

Er nad yw'r Cyfrifiad Ysgolion yn casglu'r wybodaeth hon mwyach, erys pryderon am yr effaith y byddai'n ei chael ar ddata ar 'Teithio i'r gweithle', ac mae SYG yn cynnig na ddylid casglu data ar 'deithio i fan astudio' yng Nghyfrifiad 2021.

### 3.13 Incwm

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Incwm	Peidio â chasglu. Archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol	Naddo	Archwilio'r broses o'i gynhyrchu fel allbwn uwch gan ddefnyddio data o ffynonellau gweinyddol

Yn ôl y sawl a ymatebodd i ymgynghoriadau blaenorol, mae sawl ffordd bosibl o ddefnyddio data ar incwm. O ran defnyddwyr llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, gallant ddefnyddio data ar incwm i nodi ardaloedd o amddifadedd ac achosion tlodi sydd, yn ei dro, yn llywio'r gwaith o ddyrannu adnoddau a llunio polisïau. Mae hyn hefyd yn wir am sefydliadau gwirfoddol, sydd wedi nodi'n flaenorol bod gwybodaeth am incwm yn hanfodol ar gyfer targedu cymorth a gwasanaethau yn fwy effeithiol. Gallai defnyddwyr busnes ddefnyddio gwybodaeth am incwm i amcangyfrif ymddygiad prynu defnyddwyr mewn ardaloedd lleol, cynllunio ymchwil i'r farchnad a thargedu marchnadoedd lleol penodol. Mae llawer o ddefnyddwyr yn defnyddio newidynnau eraill y cyfrifiad i fodelu incwm, fel math o lety, galwedigaeth a pherchenogaeth car. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn ddibynadwy iawn ar gyfer grwpiau arbennig o'r boblogaeth fel cartrefi mawr ac nid yw wedi bodloni gofynion defnyddwyr mewn cyfrifiadau blaenorol.

Cafodd y cwestiynau am incwm eu profi cyn Cyfrifiadau 2001 a 2011. Yn y Prawf ar Gyfrifiad 2007, gwelwyd gostyngiad ystadegol bwysig o 2.7 pwynt canran mewn cyfraddau ymateb yn sgil y cwestiwn ar incwm, sy'n gyson â chanfyddiadau Prawf 1997. Cymerodd cyfanswm o 404 o unigolion a gwblhaodd y cwestiwn am lefel eu hincwm ran hefyd yn Arolwg Gwerthuso Prawf Cyfrifiad 2007, lle gofynnwyd yr un cwestiwn iddynt eto. Dim ond mewn 66.8% o achosion y cafwyd yr un ymateb, gan ddangos bod y cwestiwn yn un anodd i'w ateb. Cafwyd tystiolaeth hefyd fod y bobl a gyflwynodd ymatebion dilys i Brawf 2007 yn pryderu ynghylch y cwestiynau am incwm.

Nid yw SYG yn cynnig y dylid cynnwys cwestiwn am incwm yng Nghyfrifiad 2021, gan ein bod yn disgwyl y bydd y materion hyn o ran effaith ac ansawdd yr ymatebion yn parhau. Fodd bynnag, bydd SYG yn archwilio'r broses o ddefnyddio data gweinyddol i gynhyrchu ystadegau ar incwm. Mae hyn yn gyson ag argymhelliad yr Ystadegydd Cenedlaethol y dylid cynyddu'r defnydd o ddata gweinyddol er mwyn gwella'r ystadegau a gesglir o Gyfrifiad 2021.

Ni all SYG gael gafael ar ddata gweinyddol ar incwm ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu ystadegau sy'n ymdebygu i rai'r cyfrifiad. Byddai angen cymeradwyaeth ddeddfwriaethol ar gyfer hyn. Yna byddai angen datblygu dulliau a diffiniadau.

### 3.14 Hunaniaeth rywiol

Manylion y pwnc	Barn gychwynnol	Casglwyd yn 2011? Do/Naddo	Sylw
Hunaniaeth rywiol	Mae angen rhagor o wybodaeth	Naddo	Mae'n bwysig bod SYG yn casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol; awgryma rai mai'r cyfrifiad yw'r ffordd iawn i wneud hyn. Fodd bynnag, mae yna bryderon ynghylch preifatrwydd, derbynioldeb, cywirdeb a'r effaith ar y gyfradd ymateb gyffredinol y mae angen eu hystyried.

Mae **hunaniaeth rywiol** yn farn oddrychol ohonoch chi eich hun a all newid dros amser mewn cyd-destunau gwahanol, a gall fod yn wahanol i atyniad rhywiol ac ymddygiad rhywiol. Mae angen dilys i fonitro'r pwnc hwn oherwydd, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr oherwydd cyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â darparu nwyddau a gwasanaethau, cyflogaeth neu hyfforddiant galwedigaethol.

Mae gwaith SYG wedi canolbwyntio ar hunaniaeth rywiol, sef y ffordd y mae'r ymatebydd yn ystyried ei hun, drwy ei phrosiect hunaniaeth rywiol a lansiwyd yn 2006. Rhoddwyd y prosiect ar waith mewn ymateb uniongyrchol i'r angen am ddata ar gyfeiriadedd rhywiol a nodwyd gan ddefnyddwyr yn ystod yr ymgynghoriad ar bynciau ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Aeth y prosiect ati i ddatblygu a phrofi cwestiynau ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gofynnwyd y cwestiwn gyntaf yn yr Arolwg Cartrefi Integredig ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010 a bellach, caiff y data eu casglu a'u cyhoeddi yn flynyddol. Mae hyn wedi arwain at gynhyrchu amcangyfrifon o hunaniaeth rywiol hunanganfyddedig yn ôl grŵp oedran, rhyw, crefydd a galwedigaeth. Yn ôl canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Cartrefi Integredig ar gyfer 2013, roedd 1.6% o oedolion yn y DU yn ystyried eu hunain yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol. Y rhanbarth â'r gyfran fwyaf o oedolion a oedd yn ystyried eu hunain yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol oedd Llundain (3.2%). Mae SYG yn ystyried cyfuno gwerth pum mlynedd o ddata gyda'r nod o ddarparu amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau lleol.

Arolwg arall sy'n mesur hunaniaeth rywiol yw'r Arolwg Cenedlaethol o Agweddau a Ffyrdd o Fyw Rhywiol. Yn ôl arolwg 2012, roedd 2.5% o ddynion a 2.4% o ferched yn ystyried eu bod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol.

Ymhlith yr agweddau pwysig ar y cwestiwn a ddatblygwyd gan y prosiect hunaniaeth rywiol ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn ac a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cartrefi

Integredig yw bod y cwestiwn yn cael ei ofyn i bob unigolyn ar wahân; ni chaiff ei ofyn ar ran aelodau o'r cartref sy'n absennol; a chaiff yr ymatebion i'r cwestiwn eu cyflwyno yn y fath fodd fel na fydd angen i'r ymatebwyr ddatgelu eu hateb i unrhyw un arall. Mae hyn yn hyrwyddo preifatrwydd rhwng aelodau o'r cartref ac yn cynyddu derbynioldeb y cwestiwn a chywirdeb yr ymateb. Ni ellir atgynhyrchu'r nodweddion hyn drwy gyfrwng proses gasglu a hunanweinyddir fel y cyfrifiad, lle y gall yr holiadur gael ei gwblhau gan un unigolyn ar ran holl aelodau'r teulu. Er bod holiadur hunanlenwi wedi'i ddatblygu hefyd, nid yw wedi'i brofi na'i ddefnyddio mewn arolwg hunanlenwi eto.

Mae'n bwysig bod SYG yn casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol; awgryma rhai mai'r cyfrifiad yw'r ffordd iawn i wneud hyn. Fodd bynnag, mae yna bryderon ynghylch preifatrwydd, derbynioldeb, cywirdeb a'r effaith ar y gyfradd ymateb gyffredinol y mae angen eu hystyried. Er mwyn helpu i nodi'r dull gweithredu gorau, a darparu gwybodaeth a all lywio rhaglen brofi, mae angen i SYG ddeall y gofyniad cyfredol am wybodaeth am hunaniaeth rywiol.

### 3.15 Gwybodaeth a gesglir at ddibenion gweithredol

Bydd Cyfrifiad 2021 yn casglu rhywfaint o wybodaeth a gaiff ei defnyddio'n bennaf i helpu gyda'r gwaith o gynnal y cyfrifiad a gwaith dilynol posibl, neu wella ansawdd data. Byddwn yn casglu gwybodaeth am enw, rhif ffôn, preswylwyr arferol ac ymwelwyr sy'n aros dros nos.

Gan mai ar-lein y caiff y cyfrifiad ei gwblhau'n bennaf, mae'n bosibl y byddwn yn casglu cyfeiriad e-bost. Gallwn ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn, er enghraifft, i anfon cadarnhad ein bod wedi derbyn holiadur wedi'i gwblhau neu yn lle rhif ffôn i gysylltu â'r rhai sydd wedi dychwelyd holiadur wedi'i gwblhau'n rhannol.

Un o brif swyddogaethau'r data gweithredol a gesglir gennym yw lleihau cwmmpas annigonol (y bobl a'r cartrefi hynny na chânt eu cyfrif yn y cyfrifiad) a chwmpas gormodol (y bobl a'r cartrefi hynny a gyfrifir fwy nag unwaith). Drwy nodi cofnod clir o'r rhai sy'n byw mewn cyfeiriad fel arfer, a'r rhai sy'n ymweld, gallwn gynhyrchu amcangyfrifon cywir o'r boblogaeth.

Mae'r newid i gasglu data ar-lein yn bennaf yn 2021 yn golygu efallai y gallwn leihau'r baich ar yr ymatebydd a gwella cywirdeb yr ymatebion yn gyffredinol. Dangoswyd hyn pan gasglwyd data ar-lein yng Nghyfrifiad 2011. Yng Nghyfrifiad 2011, cynigiodd SYG y swyddogaethau ar-lein canlynol:

- **Meysydd hunanlenwi**
  - dim ond unwaith y mae angen i'r ymatebydd nodi gwybodaeth am enw
  - caiff y broses o gwblhau'r wybodaeth am gydberthnasau rhwng pobl yn y cartref ei symleiddio
- **Cyfeirio awtomatig** - dim ond pynciau perthnasol y mae ymatebwyr yn eu gweld
- **Testun cymorth cwestiwn-benodol** - er mwyn helpu ymatebwyr i gwblhau cwestiynau mwy cymhleth
- **Negeseuon dilysu** - yn hysbysu ymatebwyr am ymatebion anghyson

Bydd SYG yn ceisio gwella'r swyddogaethau hyn yn 2021 - efallai drwy hunangodio ymatebion neu ddarparu rhestrau dewis (e.e. galwedigaeth)

Er y gall yr holiadur ar-lein olygu nad oes angen gofyn nac arddangos rhai o'r cwestiynau sydd eu hangen i gasglu gwybodaeth weithredol, efallai y bydd gofyn o hyd i gynnwys y cwestiynau hyn ar holiadur papur.

#### 4 Meini prawf gwerthuso

Mae sail dros werthuso'r ymgynghoriad ar bynciau 2021 fwy neu lai yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd i werthuso'r ymgynghoriad ar bynciau 2011. Fodd bynnag, gwnaed rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod y meini prawf gwerthuso yn gryfach ac yn fwy tryloyw ac i ystyried y newid i gynnal y cyfrifiad ar-lein yn bennaf.

Y meini prawf o ran gofynion defnyddwyr yw'r meini prawf gwerthuso o hyd. Mae gofynion gweithredol yn atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau, yn enwedig os credir y gall pwnc wella'r cwmpas.

Caiff y meini prawf o ran ystyriaethau eu defnyddio'n bennaf ar y cyd â chryfder sgôr gofynion y defnyddwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu holiadur y cyfrifiad a chynhyrchu allbynnau data gweinyddol arbrofol. Fodd bynnag, efallai y bydd materion a nodwyd gan ddefnyddio'r meini prawf hynny yn golygu na chaiff pwnc ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 er bod angen defnyddiwr neu angen gweithredol yn hysbys (er enghraifft, os na allwn ddatblygu cwestiwn y gall ymatebwyr ei ateb yn gywir).

Gofynion defnyddwyr	Ystyriaethau	Gofynion gweithredol
✓ Cryfder anghenion defnyddwyr	✓ Ansawdd y data	✓ Gwella cwmpas
✓ Angen gwybodaeth ar gyfer ardaloedd daearyddol neu boblogaethau bach	✓ Pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd	✓ Codio newidynnau deilliedig
✓ Addasrwydd ffynonellau amgen	✓ Baich ar yr ymatebydd	✓ Gwe-lywio ffurflen
✓ Gofyniad i gynnal dadansoddiad amlamrywedd	✓ Pryderon ariannol	
✓ Asesiad o'r angen i allu cymharu data'r DU	✓ Cynllun yr holiadur	
✓ Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol		

#### 4.1 Gofynion defnyddwyr

Rhaid i bynciau ddiwallu angen cryf a ddiffiniwyd yn glir gan ddefnyddwyr. Oni chyflwynir achos cryf dros gasglu gwybodaeth o Gyfrifiad 2021, ni chaiff y wybodaeth honno ei chasglu. Bydd ymatebion gan ddefnyddwyr ar bwysigrwydd y wybodaeth, gan gynnwys y rhai lle mai barn gychwynnol SYG yw y byddwn yn casglu'r data, yn helpu i lywio'r rhestr derfynol o bynciau a gaiff eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

Meini Prawf	Disgrifiad
Cryfder anghenion defnyddwyr	<p>Er enghraifft, gallai anghenion defnyddwyr gael eu cyfiawnhau o ran y canlynol: dyrannu adnoddau sylweddol, darparu gwell gwasanaethau, llunio polisi pwysig neu fonitro polisi.</p> <p>Yn ogystal, mae gofynion sy'n deillio o ddeddfwriaeth yn atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau. Er enghraifft, caiff gofynion deddfwriaeth y DU, y Cenhedloedd Unedig, Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop ac Eurostat eu hystyried.</p>
Angen gwybodaeth ar gyfer ardaloedd daearyddol neu boblogaethau bach	<p>Mae'n rhaid bod angen gwybodaeth ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth a/neu ar lefelau daearyddol manwl. Efallai y byddai'n well caffael gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ardaloedd daearyddol eang neu grwpiau mawr o'r boblogaeth o ffynonellau ystadegol eraill.</p> <p>Rhaid sicrhau y gall unrhyw ddata sy'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol bach gael eu cyfuno i lefelau uwch o ardaloedd daearyddol, gan sicrhau bod allbynnau yn gyson ac y gellir eu cymharu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.</p>
Addasrwydd ffynonellau amgen	<p>Dim ond gwybodaeth na ellir mo'i chasglu mewn unrhyw ffordd arall y bydd Cyfrifiad 2021 yn ceisio'i chasglu. Dylid ystyried a oes gwybodaeth addas ar gael o ffynonellau eraill ai peidio; er enghraifft, cofnodion gweinyddol neu arolygon sampl.</p> <p>Yn ogystal, dim ond gwybodaeth a fydd yn parhau i fod yn berthnasol am gyfnod sylweddol ar ôl iddi gael ei chasglu y dylai'r cyfrifiad ei chasglu.</p>
Gofyniad i gynnal dadansoddiad amlamrywedd	<p>Un o fanteision allweddol data'r cyfrifiad yw gallu dadansoddi newidynnau penodol yn erbyn ei gilydd. Bydd gofyniad i gynnal dadansoddiad amlamrywedd yn effeithio ar p'un a oes ffynonellau amgen addas yn bodoli, a gall atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau yn y cyfrifiad.</p>
Asesiad o'r angen i gymharu data'r DU	<p>Dylai fod modd cymharu'r data a gesglir o'r cyfrifiad ar draws ardal ddaearyddol fawr. Lle y bo'n bosibl, os oes angen ymhlith defnyddiwr, bydd tair Swyddfa Cyfrifiad y DU yn cyhoeddi allbynnau cyfrifiad sy'n gyson ledled y DU.</p>

<p>Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol</p>	<p>Mae cymhariaeth â chyfrifiadau blaenorol yn agwedd bwysig ar y gwaith o ddadansoddi'r cyfrifiad a, lle y bo'n bosibl, bydd holiadur Cyfrifiad 2021 yn casglu'r un wybodaeth â holiadur Cyfrifiad 2011.</p> <p>Fodd bynnag, efallai y bydd agweddau eraill ar anghenion defnyddwyr yn bwysicach na'r angen i gymharu cyfrifiadau.</p>
--	---



## 4.2 Gofynion gweithredol

Gallai nifer o ffactorau gweithredol effeithio ar gynnwys Cyfrifiad 2021 hefyd. Y pwysicaf ohonynt yw gwella cwmpas Cyfrifiad 2021, gan mai prif nod y cyfrifiad yw darparu cyfrifiad cadarn o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr.

Meini Prawf	Disgrifiad
Gwella cwmpas	Gall holiadur Cyfrifiad 2021 gynnwys rhai cwestiynau sy'n helpu ymatebwyr i nodi pwy ddylai gael ei gynnwys yn yr ymateb; er enghraifft, cwestiynau am ymwelwyr a diffinio'r mathau o breswylwyr arferol sy'n byw yn y cartref. Gall cwestiynau o'r fath gael eu cynnwys er nad oes angen cryf ymhlith defnyddwyr am allbynnau sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau hyn, am eu bod yn bwysig o ran sicrhau allbynnau o ansawdd uchel.
Codio newidynnau deilliedig	Disgwylir y bydd rhai allbynnau allweddol yn seiliedig ar newidynnau deilliedig (er enghraifft oedran sy'n deillio o ddyddiad geni). Gall newidynnau gael eu cynnwys yn holiadur Cyfrifiad 2021 os nodir bod angen ymhlith defnyddwyr am ddata sy'n deillio o newidyn hyd yn oed os nad oes angen ymhlith defnyddwyr am allbynnau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn.
Cyfeirio o amgylch cwestiynau	Mewn cyfrifiad ar-lein, gall ymatebwyr gael eu cyfeirio'n awtomatig o amgylch cwestiynau nad ydynt yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae'r maen prawf hwn wedi'i gadw er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd fersiwn bapur o'r ffurflen o hyd y bydd angen cwestiynau cyfeirio arni

### 4.3 Ystyriaethau

Mae'r cyfrifiad yn ymarfer gorfodol a gynhelir ar sail hunangyfrifo; mae'n rhaid i bob ymatebydd gwblhau pob cwestiwn perthnasol ar yr holiadur. Felly, mae'r ystyriaethau canlynol yn bwysig.

Meini Prawf	Disgrifiad
Ansawdd y data	Dylid disgwyl bod y data a gesglir yng Nghyfrifiad 2021 o ansawdd digonol i sicrhau bod yr allbynnau yn ddefnyddiol. Felly, ni ddylai fod angen cyfarwyddyd nac esboniad hirfaith er mwyn casglu'r wybodaeth, ac ni ddylid ceisio gwybodaeth nad yw'n hysbys neu na ellir ei chofio'n gywir.
Pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd	Ni ddylai'r cyfrifiad ofyn cwestiynau sensitif na chwestiynau a allai fod yn ymwithiol sy'n cael effaith negyddol ar yr ymateb neu a all olygu bod ymatebwyr yn rhoi atebion sy'n dderbyniol yn gymdeithasol yn hytrach nag atebion cywir. Ni ddylai holi am farn nac agweddau unigolion ychwaith.  Caiff y cyfrifiad ei gynnal at ddibenion ystadegol hefyd. Ni ddylai gasglu data a fyddai'n hyrwyddo grwpiau gwleidyddol neu sectaraidd yn fwriadol, neu'n noddi achosion penodol.
Baich ar yr ymatebydd	Ni ddylai'r cwestiynau a ofynnir am bwnc osod baich gormodol ar ymatebwyr. Gallai'r baich, er enghraifft, ddeillio o gyfarwyddyd neu esboniad hirfaith, nifer fawr o gategorïau ymateb, neu nifer fawr o gwestiynau ar un pwnc.
Pryderon ariannol	Ni ddylai cwestiynau achosi unrhyw broblemau codio mawr, ni ddylai fod angen iddynt gael eu prosesu'n helaeth, ac ni ddylent ychwanegu'n sylweddol at gost gyffredinol y cyfrifiad
Cynllun yr holiadur	Mae'r newid i gasglu data ar-lein yn bennaf yn creu cyfleoedd newydd yn ogystal â heriau. Caiff y rhain eu hystyried pan eir ati i ystyried pa bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.  Er mai ar-lein y caiff y data ystyried bennaf, darperir holiadur papur hefyd, felly caiff ystyriaethau o ran gofod a chynllun yr holiadur papur a chymaroldeb rhwng y ddau eu hystyried hefyd.

## 5 Cwestiynau'r ymgynghoriad

Y ffordd orau o ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw ar-lein. Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu ar bapur, cwblhewch dempled yr holiadur. Mae rhai cwestiynau gorfodol y mae angen i chi eu cwblhau er mwyn i ni gynnwys eich ymateb yn ein dadansoddiad. Caiff y cwestiynau hyn eu nodi â seren (\*).

Gallwch ymateb i bob pwnc, neu ddim ond y pwnc/pynciau unigol sy'n berthnasol i chi. Dylech gynnwys templed pwnc wedi'i gwblhau (adran 5.4 neu 5.5) ar gyfer pob pwnc y mae gennych ofyniad ar ei gyfer, gan gynnwys unrhyw bynciau newydd yr hoffech ddweud wrthym amdanynt. Trafodir y pynciau yn adrannau 3.2 i 3.14 o'r ddogfen ymgynghori hon.

### 5.1 Amdanoch chi

**Ydych chi'n ateb yr holiadur hwn ar ran sefydliad neu fel unigolyn? \***

- Sefydliad
- Unigolyn

**Dywedwch rywfaint wrthym amdanoch chi.**

Enw'r sefydliad \_\_\_\_\_

Eich enw \* \_\_\_\_\_

cyfeiriad e-bost \* \_\_\_\_\_

Rhif ffôn \_\_\_\_\_

**Ym mha sector rydych yn gweithio? \***

*Bydd hyn yn ein helpu i fonitro'r ystod o ddefnyddwyr y mae'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys*

- Adran o'r llywodraeth / corff cyhoeddus
- Awdurdod lleol
- Sefydliad iechyd
- Tai
- Academaidd / ymchwil
- Elusennol a gwirfoddol
- Masnachol

- Cyfleustodau
- Newyddiaduraeth / y cyfryngau
- Sefydliad rhyngwladol
- Achrestrydd / hanesydd teulu
- Arall (nodwch) \_\_\_\_\_

**A allwn gysylltu â chi i drafod eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn? \***

*Gellir gwneud hyn er mwyn trafod unrhyw bwyntiau penodol y mae angen cadarnhad yn eu cylch.*

- Gallwch
- Na allwch

**A allwn gysylltu â chi yn y dyfodol ynglŷn â Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chyfrifiad 2021? \***

*Gellir gwneud hyn er mwyn eich hysbysu am ymgynghoriadau pellach, rhoi'r wybodaeth ddiweddarach i chi am Raglen Trawsnewid y Cyfrifiad, neu ddarparu dolen i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn.*

- Gallwch
- Na allwch

## 5.2 Caniatâd

Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gennym yn dryloyw, caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymateb. A fydddech cystal â chadarnhau eich bod yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod ar gael i'r cyhoedd os bydd ei hangen yn unol â chais Rhyddid Gwybodaeth. \*

- Ydw, rwy'n caniatáu i chi gyhoeddi fy enw gyda'm hymateb
- Na, dilêwch fy enw cyn cyhoeddi fy ymateb

### 5.3 Seiliau allbwn a chyfrifo

A oedd digon o hyblygrwydd o ran y seiliau allbwn a oedd ar gael o Gyfrifiad 2011?

- Oedd
- Nac oedd

Os nac oedd, pa seiliau allbwn oedd ar goll?

Disgrifiwch yr effaith y byddai peidio â chael gwybodaeth am y seiliau allbwn hynny yn ei chael arnoch chi/ar eich gwaith.

#### 5.4 Cwestiynau ar gyfer pynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011

Dim ond os oes angen dirfawr am y data y gellir cyfiawnhau casglu gwybodaeth drwy'r cyfrifiad. Felly, mae angen i chi ddweud wrthym am yr effaith y mae defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad yn ei chael. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi cymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich atebion. Bydd hyn yn sicrhau y caiff eich barn ei hystyried yn llawn yn ein gwerthusiad. Er enghraifft, p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n barn gychwynnol, mae angen i ni gael rhagor o fanylion am effaith pob pwnc ar eich gwaith er mwyn sicrhau y caiff ei hadlewyrchu'n gywir yn holiadur Cyfrifiad 2021.

*Defnyddiwch y templed hwn i ymateb i'r ymgynghoriad gan gyfeirio at y pynciau a drafodwyd yn adrannau 3.2 i 3.12 o'r ddogfen ymgynghori hon.*

**Pwnc:** \_\_\_\_\_

#### 1a. Ydych chi'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd am y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2011 ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw (*Ewch i Gwestiwn 2*)

#### 1b. Os ydych, at ba ddiben rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn?

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- Dyrannu adnoddau - Llywodraeth ganolog
- Dyrannu adnoddau - Llywodraeth leol
- Cynllunio a darparu gwasanaethau
- Llunio a monitro polisiau
- Gofynion ymchwil
- Dibenion eraill - nodwch \_\_\_\_\_

#### 1c. Ym mha ffordd rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar hyn o bryd?

- *Os gwnaethoch nodi eich bod yn defnyddio gwybodaeth i ddyrannu adnoddau, disgrifiwch sut a gwerth yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu.*

- *Disgrifiwch y defnydd penodol a wneir o'r data. Er enghraifft, pa ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir, pa ddefnydd penodol a wneir o wybodaeth y cyfrifiad.*
- *Pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch am y pwnc hwn? Sut y byddai'n cael ei defnyddio?*
- *Pa effaith y mae defnyddio data'r cyfrifiad wedi'i chael ar y gwaith o lunio/monitro polisiâu?*
- *Disgrifiwch y mathau o ymchwil rydych yn defnyddio'r wybodaeth mewn perthynas â hwy a pham mae'r wybodaeth yn bwysig ar gyfer yr ymchwil honno.*

**2a.** Ar gyfer pob is-bwnc o fewn y pwnc hwn, nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â barn gychwynnol SYG ar b'un a ddylai'r is-bwnc hwn gael ei gasglu yng Nghyfrifiad 2021? Ydych chi'n cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n anghytuno?

*Is-bwnc : Ymateb*

**2b.** Ar gyfer pob is-bwnc o fewn y pwnc hwn, nodwch a ydych yn defnyddio data ar yr is-bwnc hwn a'r effaith arnoch chi/ar eich gwaith pe na bai SYG yn casglu gwybodaeth amdano yng Nghyfrifiad 2021. A fyddai'n cael effaith fawr, ganolig neu fach?

*Is-bwnc : Ymateb*

**2c.** Os gwnaethoch nodi y byddai'n cael effaith fawr neu ganolig, disgrifiwch yr effaith arnoch chi/ar eich gwaith pe na bai SYG yn casglu gwybodaeth am yr is-bynciau hynny yng Nghyfrifiad 2021. Disgrifiwch yr effaith pe na bai pob is-bwnc yn cael ei gynnwys ar wahân.

*Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym am yr effaith y byddai'n ei chael gan y bydd hyn yn rhan bwysig o'n gwerthusiad.*

- *Beth fyddai'r ffynhonnell wybodaeth amgen orau?*
- *Pa effaith fyddai defnyddio'r ffynhonnell amgen hon yn ei chael?*
- *Pa weithgareddau gorfodol na fydddech yn gallu eu cyflawni mwyach?*
- *Pa weithgareddau eraill na fydddech yn gallu eu cyflawni mwyach?*
- *Pa gostau ychwanegol y bydddech chi neu bobl eraill yn mynd iddynt?*



**3a. Ar ba lefel ddaearyddol rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar hyn o bryd?**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- Ardal gynnyrch
- Ardal gynnyrch ehangach
- Ward
- Awdurdod lleol
- Rhanbarthol
- Cenedlaethol
- Arall – nodwch \_\_\_\_\_

**3b. Os oes angen gwybodaeth arnoch am y pwnc hwn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, disgrifiwch sut rydych yn ei defnyddio.**

- *Ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth i nodi ardaloedd penodol ar gyfer targedu ymyriadau?*
- *A yw'n helpu i ddyrannu adnoddau?*

**4. Os oes angen gwybodaeth arnoch am y pwnc hwn ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth, disgrifiwch sut rydych yn ei defnyddio a'r effaith arnoch chi/ar eich sefydliad pe na bai'r wybodaeth ar gael.**

- *Ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth i nodi is-grwpiau penodol o'r boblogaeth?*

**5a. Pa mor bwysig ydyw i allu cymharu gwybodaeth am y pwnc hwn ar lefel y DU?**

- Pwysig iawn
- Pwysig
- Eithaf pwysig
- Ddim yn bwysig

**5b. Disgrifiwch pam y mae angen i chi gymharu'r wybodaeth am y pwnc hwn ar lefel y DU.**

- *A oes angen i chi wneud cymariaethau ledled y DU at ddibenion dyrannu adnoddau?*
- *A oes angen i chi wneud cymariaethau rhwng ardaloedd o wahanol faint, er enghraifft cymharu data ar gyfer awdurdod lleol â ffigurau cyfartalog ar gyfer y DU?*
- *Ydych chi'n ymwneud â'r gwaith o lunio polisïau ar gyfer y DU gyfan?*
- *A yw eich cylch gwaith yn cwmpasu'r DU gyfan ac a oes angen i chi ddarparu gwybodaeth i'w gefnogi?*

- Cyfrifiadau cynharach
- Dim un

**6b. Disgrifiwch sut rydych wedi defnyddio cymariaethau rhwng cyfrifiadau dros amser.**

- *Gwerthuso newid dros amser er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid*
- *Gwerthuso newid dros amser er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau*
- *Gwerthuso meincnodau a ddefnyddiwyd i fonitro llwyddiant ymyriadau'n seiliedig ar ardal*
- *Llunio rhagamcanion*
- *Cynllunio a darparu gwasanaethau*

**7a. I ba raddau y mae angen i chi ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â gwybodaeth am bynciau eraill y cyfrifiad?**

- Yn aml gydag amrywiaeth eang o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn aml gydag amrywiaeth gyfyngedig o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn achlysurol gydag amrywiaeth eang o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn achlysurol gydag amrywiaeth gyfyngedig o bynciau eraill y cyfrifiad
- Ddim o gwbl

**7b. Disgrifiwch sut rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â gwybodaeth am bynciau eraill y cyfrifiad.**

**7c. Dewiswch y pynciau eraill y mae angen i chi ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â hwy.**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref
- Tai
- Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol
- Iaith
- Crefydd
- Mudo a dinasyddiaeth
- Addysg
- Iechyd
- Gofalwyr

- Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol
- Teithio
- Incwm
- Hunaniaeth rywiol
- Arall – nodwch \_\_\_\_\_

**8a. A yw ffynonellau gwybodaeth amgen am y pwnc hwn (nad ydynt yn ymwneud â'r cyfrifiad) yn bodloni eich gofynion cyfredol?**

- Ydyn yn llawn
- Ydyn yn rhannol
- Nac ydyn
- Ddim yn gwybod

**8b. Rhowch wybod i ni am y ffynonellau gwybodaeth amgen rydych yn eu defnyddio mewn perthynas â'r pwnc hwn**

- *Ydych chi'n defnyddio'r ffynonellau hyn ar y cyd â'r cyfrifiad? Sut?*
- *Beth fyddai'r ffynhonnell wybodaeth amgen orau nesaf?*
- *Pa effaith fyddai defnyddio'r ffynhonnell amgen hon yn ei chael?*

### 5.5 Cwestiynau ar gyfer pynciau na chawsant eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011

Dim ond os oes angen dirfawr am y data y gellir cyfiawnhau casglu gwybodaeth drwy'r cyfrifiad. Felly, mae angen i chi ddweud wrthym am yr effaith y mae defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad yn ei chael. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi cymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich atebion. Bydd hyn yn sicrhau y caiff eich barn ei hystyried yn llawn yn ein gwerthusiad. Er enghraifft, p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n barn gychwynnol, mae angen i ni gael rhagor o fanylion am effaith pob pwnc ar eich gwaith er mwyn sicrhau y caiff ei hadlewyrchu'n gywir yn holiadur Cyfrifiad 2021.

*Defnyddiwch y templed hwn i ymateb i'r ymgynghoriad gan gyfeirio at hunaniaeth rywiol, incwm, neu bynciau eraill arfaethedig.*

**Pwnc:** \_\_\_\_\_

#### 1a. Ydych chi'n defnyddio unrhyw wybodaeth a gyhoeddwyd am y pwnc hwn?

- Ydw
- Na (*Ewch i Gwestiwn 2*)

#### 1b. Os ydych, at ba ddiben rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn?

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- Dyrannu adnoddau - Llywodraeth ganolog
- Dyrannu adnoddau - Llywodraeth leol
- Cynllunio a darparu gwasanaethau
- Llunio a monitro polisiau
- Gofynion ymchwil
- Dibenion eraill - nodwch \_\_\_\_\_

#### 1c. Ym mha ffordd rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar hyn o bryd?

- *Os gwnaethoch nodi eich bod yn defnyddio gwybodaeth i ddyrannu adnoddau, disgrifiwch sut a gwerth yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu.*
- *Disgrifiwch y defnydd penodol a wneir o'r data. Er enghraifft, pa ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir, pa ddefnydd penodol a wneir o wybodaeth y cyfrifiad.*

- *Pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch am y pwnc hwn? Sut y byddai'n cael ei defnyddio?*
- *Pa effaith y mae defnyddio data'r cyfrifiad wedi'i chael ar y gwaith o lunio/monitro polisiau?*
- *Disgrifiwch y mathau o ymchwil rydych yn defnyddio'r wybodaeth mewn perthynas â hwy a pham bod y wybodaeth yn bwysig ar gyfer yr ymchwil honno.*

**2a. I ba raddau rydych yn cytuno â barn gychwynnol SYG ar b'un a ddylid casglu data ar y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2021?**

*Os ydych yn cynnig pwnc newydd, na chaiff ei drafod yn y ddogfen ymgynghori, ewch i gwestiwn 2b*

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno

**2b. Nodwch a ydych yn defnyddio data ar y pwnc hwn a'r effaith arnoch chi/ar eich gwaith pe na bai SYG yn casglu gwybodaeth amdano yng Nghyfrifiad 2021.**

- Mawr
- Canolig
- Bach

**2c. Os gwnaethoch nodi y byddai'n cael effaith fawr neu ganolig, disgrifiwch yr effaith arnoch chi/ar eich gwaith pe na bai SYG yn casglu gwybodaeth am y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2021.**

*Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym am yr effaith y byddai'n ei chael gan y bydd yn rhan bwysig o'n gwerthusiad.*

- *Beth fyddai'r ffynhonnell wybodaeth amgen orau?*
- *Pa effaith fyddai defnyddio'r ffynhonnell amgen hon yn ei chael?*
- *Pa weithgareddau gorfodol na fydddech yn gallu eu cyflawni mwyach?*
- *Pa weithgareddau eraill na fydddech yn gallu eu cyflawni mwyach?*
- *Pa gostau ychwanegol y bydddech chi neu bobl eraill yn mynd iddynt?*

**3a. Ar ba lefel ddaearyddol rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar hyn o bryd?**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- Ardal gynnyrch
- Ardal gynnyrch ehangach
- Ward
- Awdurdod lleol
- Rhanbarthol
- Cenedlaethol
- Arall – nodwch \_\_\_\_\_



**3b. Os oes angen gwybodaeth arnoch am y pwnc hwn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, disgrifiwch sut rydych yn ei defnyddio.**

- *Ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth i nodi ardaloedd penodol ar gyfer targedu ymyriadau?*
- *A yw'n helpu i ddyrannu adnoddau?*

**4. Os oes angen gwybodaeth arnoch am y pwnc hwn ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth, disgrifiwch sut rydych yn ei defnyddio a'r effaith arnoch chi/ar eich sefydliad pe na bai'r wybodaeth ar gael.**

- *Ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth i nodi is-grwpiau penodol o'r boblogaeth?*

**5a. Pa mor bwysig ydyw i allu cymharu gwybodaeth am y pwnc hwn ar lefel y DU?**

- Pwysig iawn
- Pwysig
- Eithaf pwysig
- Ddim yn bwysig

**5b. Disgrifiwch pam y mae angen i chi gymharu'r wybodaeth am y pwnc hwn ar lefel y DU**

- *A oes angen i chi wneud cymariaethau ledled y DU at ddibenion dyrannu adnoddau?*
- *A oes angen i chi wneud cymariaethau rhwng ardaloedd o wahanol faint, er enghraifft cymharu data ar gyfer awdurdod lleol â ffigurau cyfartalog ar gyfer y DU?*
- *Ydych chi'n ymwneud â'r gwaith o lunio polisïau ar gyfer y DU gyfan?*
- *A yw eich cylch gwaith yn cwmpasu'r DU gyfan ac a oes angen i chi ddarparu gwybodaeth i'w gefnogi?*

**6a. I ba raddau y mae angen i chi ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â gwybodaeth am bynciau eraill y cyfrifiad?**

- Yn aml gydag amrywiaeth eang o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn aml gydag amrywiaeth gyfyngedig o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn achlysurol gydag amrywiaeth eang o bynciau eraill y cyfrifiad
- Yn achlysurol gydag amrywiaeth gyfyngedig o bynciau eraill y cyfrifiad
- Ddim o gwbl

**6b. Disgrifiwch sut rydych yn defnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â gwybodaeth am bynciau eraill y cyfrifiad.**

- Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol
- Iaith
- Crefydd
- Mudo a dinasyddiaeth
- Addysg
- Iechyd
- Gofalwyr
- Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol
- Teithio
- Incwm
- Hunaniaeth rywiol
- Arall – nodwch \_\_\_\_\_

**7a. A yw ffynonellau gwybodaeth amgen am y pwnc hwn (nad ydynt yn ymwneud â'r cyfrifiad) yn bodloni eich gofynion cyfredol?**

- Ydyn yn llawn
- Ydyn yn rhannol
- Nac ydyn
- Ddim yn gwybod

**7b. Rhowch wybod i ni am y ffynonellau gwybodaeth amgen rydych yn eu defnyddio mewn perthynas â'r pwnc hwn**

- *Ydych chi'n defnyddio'r ffynonellau hyn ar y cyd â'r cyfrifiad? Sut?*
- *Beth fyddai'r ffynhonnell wybodaeth amgen orau nesaf?*
- *Pa effaith fyddai defnyddio'r ffynhonnell amgen hon yn ei chael?*

## 5.6 Sylwadau

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn?

## Atodiad A Cyfraddau ymateb a chytuno â chwestiynau

Mae SYG yn defnyddio gwybodaeth am gyfraddau diffyg ymateb i eitemau (canran y bobl na wnaethant gwblhau cwestiwn) i ddangos ansawdd data'r cyfrifiad.

Mae SYG hefyd yn cynnal Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad i'w galluogi i gyfrifo lefel y cytundeb rhwng atebion ymatebydd yn y cyfrifiad a'r arolwg.

Gall y ddau fesur hyn gael eu defnyddio i ddeall ansawdd y wybodaeth a gesglir gan ddefnyddio pob un o'r cwestiynau. Gall hyn, yn ei dro, gael ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddatblygu'r cwestiynau a gwella ansawdd y data.

Ar gyfer pob cwestiwn, mae Tabl 1 yn cynnwys cyfanswm y diffyg ymatebion i eitem a'r diffyg ymatebion i eitem a rennir yn ôl ymatebion ar y rhynggrwyd ac ymatebion papur yn ogystal â chyfraddau anghytuno cyffredinol yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad, a rennir yn ôl ymatebion ar y rhynggrwyd ac ymatebion papur ar gyfer cwestiynau a ofynnir i bob aelod o'r cartref. Mae Tabl 2 yn dangos y ffigurau cyfatebol ar gyfer cwestiynau a ofynnir i unigolion.

Caiff y cwestiynau yn y tablau hyn eu trefnu yn ôl cyfraddau anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad.

Gweithiodd y cwestiynau mewn gwyrdd yn dda yng Nghyfrifiad 2011, a byddai SYG yn cynnig yn gyffredinol y dylid cadw'r cwestiynau hyn yr un fath yn 2021 os yw'r gofynion o ran gwybodaeth yn sefydlog.

Mae'r cwestiynau mewn ambr yn cynnwys y rhai yn y 10 gwaethaf yn seiliedig ar ddiffyg ymateb, neu'r rhai lle'r oedd lefel uchel o anghytuno o ran cwestiynau rhwng y cyfrifiad a'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad.

Mae'r cwestiynau mewn coch yn cynnwys y rhai a oedd yn y 10 gwaethaf yn seiliedig ar gyfraddau anghytuno. Ymhlith y ffactorau a all achosi lefelau uchel o anghytuno o ran cwestiynau mae:

- lle mae'r cwestiwn yn dibynnu ar yr ymatebydd i gofio'r ateb, fel gofyn iddo dicio'r blychau sy'n berthnasol i'r holl gymwysterau a ddelir, cod post ei weithle, neu'r flwyddyn olaf iddo weithio
- lle mae'r cwestiwn yn gofyn i'r ymatebydd roi ei farn, fel gofyn am ei iechyd, ei fedrusrwydd o ran ieithoedd neu ei hunaniaeth genedlaethol
- lle mae'r ymateb i'r cwestiwn yn gofyn am wybodaeth fanwl i gefnogi gwaith codio cymhleth, fel diwydiant neu alwedigaeth
- gwahaniaethau sy'n codi am fod holiadur y cyfrifiad yn cael ei gwblhau gan yr ymatebydd heb gyfwelydd yn bresennol i roi cymorth, tra mai cyfwelydd sy'n gofyn y cwestiynau yn yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad. Mae'r 'effaith modd' hon yn dueddol o gael mwy o effaith po fwyaf cymhleth yw cyfarwyddiadau'r cwestiwn, er enghraifft nifer yr ystafelloedd

Roedd cyfraddau ymateb yn is ar gyfer y rhai a ddarparwyd ar bapur, yn hytrach nag ar y rhynggrwyd. Gallai'r defnydd o nodiadau atgoffa ar-lein lle gadawyd cwestiynau heb eu hateb

fod yn ffactor a gyfrannodd at hyn. Bydd archwilio potensial cyfrifiad a gynhelir ar-lein yn bennaf yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Y cwestiwn â'r gyfradd diffyg ymateb fwyaf a gwblhawyd ar-lein oedd crefydd, sef yr unig gwestiwn gwirfoddol yn yr holiadur.

Mae SYG wedi defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'i barn gychwynnol ar bob un o'r pynciau yn y ddogfen hon. Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu a phrofi cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad 2021.

**Tabl A1 Cyfraddau diffyg ymateb i eitemau a chyfraddau anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad ar gyfer cwestiynau am y cartref yng Nghyfrifiad 2011**

Trefnwyd yn ôl cyfanswm cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad

Rhif y cwestiwn	Cwestiwn	Diffyg ymateb i eitem (%)			Cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad (%)		
		Cyfanswm	Rhyngrwyd	Papur	Cyfanswm	Rhyngrwyd	Papur
H8	Hunangynhwysol	2.0	0.1	2.4	1.4	1.8	1.3
H6	Cyberthnasau	4.0	0.4	5.0	3.1	3.4	3.0
H12	Deiliadaeth	2.3	0.1	2.7	5.0	2.8	5.4
H7	Math o lety	1.8	0.0	2.2	8.4	5.9	8.8
H10	Nifer yr ystafelloedd gwely	1.8	0.1	2.1	8.6	7.0	8.9
H11	Gwres canolog	2.7	1.0	3.1	9.8	8.1	10.1
H13	Landlord	2.8	0.2	3.3	12.4	10.4	12.8
H9	Nifer yr ystafelloedd	2.2	0.1	2.7	33.5	30.1	34.2

Nodiadau ar gyfer tablau A1 ac A2

Nid oes gan y celloedd mewn italig yn y colofnau Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad samplau digon mawr i greu cyfradd cytuno gadarn.

Y celloedd llwyd yw'r 10 'gwaethaf' (cyfradd diffyg ymateb uchaf, cyfradd anghytuno isaf o ran yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad) o'r holl bynciau a restrir yn y ddau dabl.

Cyfrifwyd cyfraddau diffyg ymateb i eitemau drwy gynnwys pob unigolyn o fewn cwmpas cwestiwn penodol, ac eithrio myfyrwyr nad oeddent yn y cyfeiriad cyfrifo yn ystod y tymor ond gan gynnwys preswylwyr byrdymor.

Roedd sampl yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad yn canolbwyntio ar y boblogaeth preswylwyr arferol, ac felly nid oedd yn cynnwys myfyrwyr a phlant ysgol a oedd yn byw oddi cartref yn ystod y tymor na phreswylwyr byrdymor.

## Statws CAG

**Coch:** yn y '10 uchaf' o ran cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad lle'r oedd maint sampl yr Arolwg yn ddigon mawr i roi amcangyfrif cadarn

**Ambr:** yn y '10 uchaf' o ran diffyg ymateb i eitem ond nid cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad, neu gyfradd anghytuno gymharol uchel o ran yr Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad

**Gwyrdd:** dim un o'r uchod



**Tabl A2 Cyfraddau diffyg ymateb i eitem a chyfraddau anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad ar gyfer cwestiynau a ofynnwyd i unigolion yng Nghyfrifiad 2011**

Trefnwyd yn ôl cyfanswm cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansawdd y Cyfrifiad

Rhif y cwestiwn	Cwestiwn	Diffyg ymateb i eitem (%)			Cyfradd anghytuno'r Arolwg o Ansamdd y Cyfrifiad (%)		
		Cyfanswm	Rhyngrwyd	Papur	Cyfanswm	Rhyngrwyd	Papur
2	Rhyw	0.6	0.1	0.7	0.3	0.4	0.3
9	Gwlad enedigol	1.5	0.1	1.8	0.9	1.1	0.8
8	Dangosydd yn ystod y tymor	1.4	0.1	1.9	1.1	0.2	1.4
3	Oedran	0.4	0.0	0.5	1.6	0.8	1.8
4	Statws priodasol	3.8	0.1	4.7	1.9	1.1	2.1
7	Myfyriwr	3.3	0.1	4.1	2.4	2.9	2.3
18	Prif iaith	2.5	0.3	3.0	3.7	3.9	3.6
21	Dangosydd cyfeiriad flwyddyn yn ôl	3.8	2.9	4.1	4.5	5.6	4.3
33	Hunangyflogedig neu cyfloweithiwr cyflogedig	4.0	0.2	4.8	5.3	5.5	5.2
16	Grŵp ethnig (18)	2.7	0.5	3.2	5.3	7.6	4.8
31a	Erioed wedi gweithio	1.8	0.2	2.0	5.6	5.9	5.6
22	Pasbort	2.3	0.3	2.8	8.2	8.4	8.1
26	Cyflogaeth yr wythnos diwethaf	5.0	0.2	6.1	8.8	11.7	8.3
14	Gofalwr	3.5	0.1	4.3	9.1	7.2	9.4
20	Crefydd	7.2	5.3	7.6	9.6	12.4	8.9
23	Anabled	3.2	0.1	3.9	11.1	6.9	12.1
36	Goruchwylydd	4.3	0.2	5.2	13.8	12.2	14.0
41	Teithio i'r gwaith	3.2	0.3	3.9	14.5	13.8	14.7
42	Oriau a weithiwyd	3.4	0.3	4.2	16.1	18.8	15.5
5	Math o ail gyfeiriad	8.0	1.8	9.8	18.3	27.0	17.0
10	Blwyddyn cyrraedd	4.7	0.2	6.4	22.4	18.7	23.5
37, 38	Diwydiant	11.5	2.7	13.3	25.8	24.0	26.1
17	Sgiliau iaith Gymraeg	3.4	0.3	3.9	26.6	24.8	27.2
12	Bwriad i aros	14.5	0.5	21.3	26.8	0.0	32.8
13	Iechyd	1.6	0.1	2.0	31.8	28.6	32.5
25	Lefel uchaf o gymhwyster	5.7	0.2	6.8	32.4	31.4	32.6
34, 35	Galwedigaeth	3.8	1.1	4.4	32.5	34.0	32.2
19	Medrusrwydd iaith	3.6	0.3	4.9	35.5	28.4	37.8
15	Hunaniaeth genedlaethol	1.7	0.1	2.1	39.6	39.7	39.6
40	Cod post y gweithle	9.4	4.3	10.7	39.7	36.5	40.4
31b	Y flwyddyn olaf a weithiwyd	10.9	0.4	12.2	45.0	37.0	45.8

## Atodiad B Ffynonellau gwybodaeth amgen

Mae SYG wedi rhoi rhaglen ymchwil ar waith ar y defnydd o ddata gweinyddol, data arolwg a data mawr. Nod y rhaglen hon yw archwilio dulliau o ddefnyddio data gweinyddol i nodi a gwerthuso allbynnau arbrolfol sy'n cwmpasu amcangyfrifon o'r boblogaeth a nodweddion economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys priodweddau'r cartref. Un maes ymchwil ychwanegol fydd y defnydd o ffynonellau data amgen i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun y cyfrifiad a'i roi ar waith, yn enwedig y gwaith o ddatblygu'r gofrestr cyfeiriadau a llywio gwaith maes er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

### B1 Cynlluniau ar gyfer data gweinyddol a data arolwg

Ceir tair elfen i'r strategaeth ar gyfer defnyddio data gweinyddol a data arolwg:

#### 1. Gwneud defnydd gwell o ddata gweinyddol o ran gweithrediadau maes a phrosesau gweithredu

Mae SYG yn bwriadu ychwanegu gwybodaeth bellach at y Gofrestr Cyfeiriadau er mwyn darparu gwybodaeth gyd-destunol am gyfeiriadau unigol. Gyda mwy o wybodaeth am bob cyfeiriad unigol, mae cyfleoedd i wella cynlluniau ar gyfer gweithredu'r cyfrifiad a'r arolwg, targedu gwaith dilynol a gwasanaethau cymorth a helpu i ddeall a modelu achosion o ddiffyg ymateb.

Efallai y gall data gweinyddol nodi'r canlynol: y graddau y mae'r boblogaeth yn newid mewn cyfeiriad; ardaloedd neu grwpiau y gall fod yn anodd eu cyfrifo; p'un a yw'r cyfeiriad yn wag; neu'r dewis math o ryngweithio â darparwyr gwasanaeth.

#### 2. Cynhyrchu allbynnau ystadegol integredig - bydd y rhain yn defnyddio data gweinyddol a data arolwg ar y cyd â'r cyfrifiad

Gallai hyn gynnwys defnyddio data gweinyddol i lenwi bylchau o ran cartrefi na wnaethant ymateb neu gasglu nodweddion y boblogaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn hanesyddol yn y cyfrifiad, fel incwm (gweler yr adran ar incwm).

#### 3. Gwneud argymhelliad ar gyfer darparu ystadegau ar y boblogaeth y tu hwnt i 2021




Cynhyrchu ystadegau arbrolfol yn seiliedig ar ffynonellau gweinyddol o 2015 a datblygiadau blynyddol i gefnogi'r gwaith o feicnodi yn erbyn Cyfrifiad 2021. Dylai hyn ein galluogi i gynnal asesiad o'r gwaith o ddarparu ystadegau ar y boblogaeth yn 2022/23.

Er mwyn lliniaru'r risgiau o ran preifatrwydd sy'n gysylltiedig ag opsiynau data gweinyddol, caiff pob set ddata â gwybodaeth y gellir adnabod unigolyn ohoni ei chadw fel set ddata ddienw mewn Amgylchedd Ymchwil Ystadegol gyda mesurau diogelwch cryf (gweler "Beyond 2011 Safeguarding Data for Research: Our Policy (M10)")

Mae dau fframwaith asesu data gweinyddol wedi'u datblygu i ddangos potensial ffynonellau data gweinyddol i roi amcangyfrifon sy'n cyfateb i'r rhai a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011. Rhoddir enghreiffiau o'r fframweithiau hyn isod.















































































































Er na fydd yn bosibl disodli amcangyfrifon sy'n deillio o gwestiynau'r cyfrifiad yn uniongyrchol â data gweinyddol mewn llawer o achosion, gall fod yn bosibl cynhyrchu mesurau tebyg a fydd yn bodloni gofynion defnyddwyr o hyd. Gall hefyd fod yn bosibl cyfuno ffynonellau gweinyddol ag arolygon i gynhyrchu amcangyfrifon.

**Tabl B1: Potensial i gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer pob pwnc**




-  Dim data ar gael
-  Data ar gael o bosibl
-  Data ar gael










































































































Mae'r asesiad yn rhoi syniad o'r data sydd ar gael. Nid yw'n asesu elfennau'n ymwneud ag ansawdd fel cwmpas, cywirdeb neu berthnasedd.

**Newidynnau sy'n ymwneud â'r unigolyn**




Rhyw	 G	 G	 G	 G	 C
Dyddiad geni	 G	 G	 G	 G	 C
Statws Priodasol	 A	 C	 A	 C	 C
Cyberthnasau rhwng aelodau'r cartref	 A	 C	 C	 C	 C
Hunaniaeth genedlaethol	 C	 C	 G	 C	 C
Ethnigrwydd	 A	 A	 G	 C	 C
Iaith (y gallu i siarad Cymraeg neu Saesneg)	 CA	 CA	 A	 C	 C
Crefydd	 C	 C	 G	 C	 C
Cymwysterau	 C	 C	 AG	 C	 C
Iechyd cyffredinol	 C	 A	 CA	 C	 C
Anabledd/cyflyrau iechyd hirdymor	 A	 A	 A	 CA	 C
Gofalwyr (nifer)	 A	 C	 C	 C	 C
Gweithgarwch Economaidd	 A	 C	 A	 C	 C
Diwydiant yr alwedigaeth	 A	 C	 C	 C	 C
Dull o deithio i'r gwaith	 C	 C	 C	 C	 C
Gweithle	 A	 C	 C	 C	 C
Gwlad enedigol	 CA	 CA	 C	 C	 C
Mudwr mewnol neu ryngwladol	 A	 G	 A	 A	 C
Cyfeiriad yn ystod y tymor	 C	 C	 G	 C	 R
Incwm	 AG	 C	 C	 C	 C
Hunaniaeth rywiol	 C	 C	 CA	 C	 C
Gweithgarwch (rhyngweithio â'r system y caiff data eu cymryd)	 G	 G	 G	 G	 CA

**Newidynnau sy'n ymwneud â'r cartref**

Maint y llety	 C	 C	 C	 C	 G
Math o annedd	 CA	 C	 C	 C	 G
Deiliadaeth	 CA	 C	 C	 C	 C
Nifer y ceir a faniau	 C	 C	 C	 AG	 C

Data ar enillion a budd-daliadau <sup>1</sup> Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM	Data ar iechyd <sup>2</sup> Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Data ar addysg <sup>3</sup> Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru	Data ar gerbydau a gyrwyr <sup>4</sup> Yr Adran Drafnidiaeth, Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau	Priodweddau eiddo <sup>5</sup> Asiantaeth y Swyddfa Brisio
 G	 G	 G	 G	 C
 G	 G	 G	 G	 C
 A	 C	 A	 C	 C
 A	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 G	 C	 C
 A	 A	 G	 C	 C
 CA	 CA	 A	 C	 C
 C	 C	 G	 C	 C
 C	 C	 AG	 C	 C
 C	 A	 CA	 C	 C
 A	 A	 A	 CA	 C
 A	 C	 C	 C	 C
 A	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C
 A	 C	 C	 C	 C
 CA	 CA	 C	 C	 C
 A	 G	 A	 A	 C
 C	 C	 G	 C	 R
 AG	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 CA	 C	 C
 G	 G	 G	 G	 CA

Tabl B2: Potensial i ddisodli pob cwestiwn y cyfrifiad

-  Dim data ar gael
-  Rhywfaint o ddata ar gael
-  Data ar gael

Mae'r asesiad yn rhoi syniad o'r data sydd ar gael. Nid yw'n asesu elfennau'n ymwneud ag ansawdd fel cwmpas, cywirdeb neu berthnasedd.

**Newidynnau sy'n ymwneud â'r unigolyn**

**Demograffeg sylfaenol**

Beth yw eich rhyw?

Beth yw eich dyddiad geni?

Beth yw eich statws priodasol?

Cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref

**Ethnigrwydd / cenedligrwydd**

Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

Beth yw eich gr?p ethnig?

**Iaith**

Beth yw eich prif iaith?

Pa mor dda ydych chi'n siarad Cymraeg?

Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg?

**Crefydd**

Beth yw eich crefydd?

**Addysg**

Pa un o'r cymwysterau hyn sydd gennych?

**Iechyd**

Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?

A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis?

**Gofalwyr**

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n rhoi unrhyw help neu gefnogaeth iddynt, oherwydd salwch/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor?

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n rhoi unrhyw help neu gefnogaeth iddynt, oherwydd problemau'n ymwneud â henaint?

**Y farchnad lafur**

Gweithgarwch yr wythnos diwethaf o sawl cwestiwn

**Teithio i'r gwaith**

Sut ydych chi'n teithio'r gwaith fel arfer?

Yn eich prif swydd, beth yw cyfeiriad eich gweithle?

**Mudo a chenedligrwydd**

Beth yw eich gwlad enedigol?

Pryd gwnaethoch gyrraedd i fyw yma yn fwyaf diweddar?

Pa mor hir rydych yn bwriadu aros yn y DU?





















Beth oedd eich cyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl?











Pa basbortau a ddelir gennych?
















**Incwm**






Dim cwestiwn yn y cyfrifiad

Data ar enillion a threth <sup>1</sup> Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM	Data ar iechyd <sup>2</sup> Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Data ar addysg <sup>3</sup> Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru	Data ar gerbydau a gyrwyr <sup>4</sup> Yr Adran Drafnidiaeth, Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau	Priodweddau eiddo <sup>5</sup> Asiantaeth y Swyddfa Briso
---	---	---	---	--











 G	 G	 G	 G	 C
 G	 G	 G	 G	 C
 A	 C	 A	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C











 C	 C	 C	 C	 C
 C	 A	 AG	 C	 C

 C	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 A	 C	 C











 C	 C	 C	 C	 C
--	--	--	--	--


























 C	 C	 A	 C	 C
---	---	---	---	---





 C	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C

 C	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C

 CA	 C	 CA	 C	 C
--	---	--	---	---

 C	 C	 C	 C	 C
 CA	 C	 C	 C	 C

 C	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 R
 C	 C	 C	 C	 C
 CA	 C	 C	 C	 C
 C	 C	 C	 C	 C

 AG	 C	 C	 C	 C
--	---	---	---	---

## Nodiadau ar gyfer Tablau B1 a B2

### 1. Data ar enillion a budd-daliadau:

Mae gan SYG fynediad i ddata System Gwybodaeth am Gwsmeriaid eisoes sy'n darparu enw, dyddiad geni, rhyw a chyfeiriad (a nodir yn ddiennw).

Mae SYG yn ceisio cael mynediad i amrywiaeth o setiau data sy'n cwmpasu gwybodaeth am incwm (fel enillion, taliadau budd-dal a chredydau treth) y gall fod yn bosibl eu cysylltu â data'r cyfrifiad er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon manwl wedi'u modelu o incwm.

### 2. Data ar iechyd:

Mae SYG yn ceisio cael mynediad i amrywiaeth o setiau data a all ddarparu gwybodaeth am statws iechyd ac anabledd. Fodd bynnag, byddai hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ddeddfwriaethol, derbynioldeb y cyhoedd ac ystyriaethau cyfrinachedd.

### 3. Data ar addysg:

Mae gan SYG fynediad i ddata Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch sy'n darparu enw, dyddiad geni, rhyw a chyfeiriad yn ystod y tymor (a nodir yn ddiennw). Hefyd, mae gan SYG fynediad eisoes i wybodaeth debyg, yn ogystal â data ar ethnigrwydd ac iaith, o'r Cyfrifiad o Ysgolion yng Nghymru a'r Cyfrifiad o Ysgolion yn Lloegr.

Mae SYG yn ceisio cael mynediad i setiau data sy'n cwmpasu gwybodaeth am gymwysterau ac ethnigrwydd.

### 4. Data ar gerbydau a gyrwyr:

Bydd SYG yn archwilio data ar yrwyr a thrwyddedu cerbydau a all o bosibl ddisodli neu ategu'r pwnc 'nifer y ceir'.

### 5. Data ar briodweddau eiddo:

Yn ddiweddar, mae SYG wedi cael cymeradwyaeth gan y Senedd i ddefnyddio data ar briodweddau eiddo Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd y data hyn yn darparu gwybodaeth am gyfeiriadau a phriodweddau ffisegol eiddo (fel nifer yr ystafelloedd a'r math o lety), yn ogystal â dyddiadau'r archwiliad diwethaf a'r band treth gyngor a bennwyd, sy'n nodi pa mor gyfoes yw'r data ar briodweddau eiddo.

## B2 Cynlluniau ar gyfer Data Mawr

Mae SYG yn archwilio'r potensial, er enghraifft, i ddefnyddio data lleoliad o ffonau symudol i gynhyrchu ystadegau mwy mynych ar deithio i'r gwaith sydd ond ar gael o'r cyfrifiad unwaith bob degawd. Ar hyn o bryd, nid oes gan SYG fynediad i'r data hyn ond byddai'n sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a mesurau diogelu cyfreithiol.

## Atodiad C Geirfa

<b>Term</b>	<b>Disgrifiad</b>
Allbynnau wedi'u cysoni	Bydd cynhyrchu setiau data sy'n seiliedig ar ddsbarthiadau, diffiniadau a safonau cyffredin yn golygu y bydd modd cymharu ystadegau yn well.
Amgylchedd Ymchwil Ystadegol	Mae'r Amgylchedd Ymchwil Ystadegol yn gyfleuster pwrpasol sy'n galluogi defnyddwyr i ddefnyddio setiau data gweinyddol i wneud gwaith ymchwil a sicrhau preifatrwydd y sawl sydd ynddynt. Mae'n cynnwys Amgylchedd Ymchwil Ystadegol y Cyfrifiad a'r Cyfleuster Cysylltiadau Diogel.
Annedd	Mae annedd yn uned o lety a all gynnwys un lle byw neu fwy (lle byw yw'r llety a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w ddefnyddio gan aelodau o gartref unigol). Gellir dosbarthu annedd fel annedd wedi'i rhannu neu annedd heb ei rhannu.
